# Canllaw i ddioddefwyr trais ac ymosodiad rhywiol difrifol

Beth sy'n digwydd pan fydd achos yn dod i sylw Gwasanaeth Erlyn y Goron



Mae trais rhywiol yn drosedd, ni waeth pwy sy'n ei gyflawni na ble mae'n digwydd.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr trais rhywiol. Mae'r canllaw hwn yn egluro beth y gallwch ei ddisgwyl gan y system cyfiawnder troseddol os byddwch yn penderfynu rhoi gwybod i'r heddlu am yr hyn sydd wedi digwydd. Mae'r wybodaeth hon yn berthnasol i bob un sydd wedi dioddef trais rhywiol – gan gynnwys menywod a merched a dynion a bechgyn.

Os oes angen help arnoch mewn argyfwng, ffoniwch 999.

**Nodyn am dermau**
Rydym wedi defnyddio'r gair dioddefwr drwy'r canllaw hwn. Pan fyddwn yn sôn am droseddu yn gyffredinol, rydym yn defnyddio'r gair dioddefwr i olygu rhywun y cyflawnwyd trosedd yn ei erbyn neu'r achwynydd mewn achos a ystyrir neu a erlynir gan y CPS. Mae hyn yn gyson â'r termau a ddefnyddir mewn dogfennau eraill fel y Cod Dioddefwyr.

Pan fyddwn yn gweithio ar achos penodol, byddwn fel arfer yn defnyddio'r geiriau yr 'achwynydd' neu'r 'tyst' yn dibynnu ar y cyd-destun. Y rheswm am hyn yw, pan fydd achos yn dod drwy'r broses cyfiawnder troseddol, nid yw bob amser wedi'i brofi bod trosedd wedi digwydd. Achwynydd yw'r term cyfreithiol am rywun sydd wedi rhoi gwybod am drosedd, ond nad yw hyn wedi'i brofi yn y llys eto.

# Cynnwys


Yr hyn y mae angen i chi ei wybod gyntaf ........................................................ 5

Pa gymorth sydd ar gael i'ch helpu ............................................................ 10

Sut rydym yn gweithio gyda'r heddlu wrth iddynt adeiladu eu hachos .................. 13

Sut rydym yn penderfynu beth i'w wneud yn eich achos chi................................ 17

Ar ôl i ddiffynnydd gael ei gyhuddo - y gwrandawiad cyntaf yn y llys ynadon ......... 24

Y gwrandawiad cyntaf yn Llys y Goron – y gwrandawiad pledio a pharatoi ar gyfer treial ........................................................................................ 27

Beth mae angen i ni ei wneud cyn y treial......................................................... 31

Cymorth i roi eich tystiolaeth - 'mesurau arbennig' ............................................ 35

Beth fydd angen i chi ei wneud cyn y treial....................................................... 39

Y treial ........................................................................................ 42

Y dyfarniad a'r ddedfryd ........................................................................ 48

Ar ôl y treial – apeliadau ...................................................................... 52

# Yr hyn y mae angen i chi ei wybod gyntaf

## Cynnwys:

- Gwasanaeth Erlyn y Goron: pwy ydym ni a beth ydym ni'n ei wneud
- Eich hawliau fel dioddefwr
- Beth sy'n digwydd pan fyddwch chi'n rhoi gwybod i'r heddlu am ddigwyddiad
- Pwy fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi
- Ein hymrwymiad i ddioddefwyr trais ac ymosodiad rhywiol difrifol
- Eich hawl i aros yn ddienw



# Yr hyn y mae angen i chi ei wybod gyntaf

## Gwasanaeth Erlyn y Goron: pwy ydym ni a beth ydym ni'n ei wneud

Yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron, ni sy'n gyfrifol am erlyn achosion troseddol yng Nghymru a Lloegr. Mewn achosion o dreisio neu ymosodiad rhywiol difrifol, mae hyn yn golygu ein bod yn penderfynu pryd y gellir cyhuddo rhywun a amheuir o drosedd ac rydym yn cyflwyno'r achos yn eu herbyn yn y llys.

## Eich hawliau fel dioddefwr

Mae'r Cod Dioddefwyr a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn egluro'r safon sylfaenol o gymorth y mae'n rhaid i asiantaethau cyfiawnder troseddol ei darparu i ddioddefwyr: **gov.uk/victims-code**.

Gellir crynhoi'r safon gofal hon fel 12 hawl:

1. I allu deall a chael eich deall
2. I gael cofnodi manylion y drosedd heb oedi digyfiawnhad
3. I dderbyn gwybodaeth pan ydych yn adrodd wrth yr heddlu am y drosedd
4. I gael eich atgyfeirio at wasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr a chael gwasanaethau a chefnogaeth wedi eu teilwra i'ch anghenion
5. I dderbyn gwybodaeth am iawndal
6. I dderbyn gwybodaeth am yr ymchwiliad a'r erlyniad
7. I wneud datganiad personol dioddefwr
8. I dderbyn gwybodaeth am y treial, proses y treial a'ch rôl fel tyst
9. I dderbyn gwybodaeth am ganlyniad yr achos ac unrhyw apeliadau
10. I dderbyn treuliau a chael eich eiddo yn ôl
11. I dderbyn gwybodaeth am y troseddwr yn dilyn euogfarn
12. I wneud cwyn am Hawliau sydd heb eu diwallu

Cynlluniwyd y canllaw hwn i'n helpu i fodloni eich hawliau drwy eich helpu i'w deall a thrwy ddarparu gwybodaeth am yr hyn y gallwch ei ddisgwyl ym mhob cam o'r broses cyfiawnder troseddol.

Mae'r Comisiynydd Dioddefwyr hefyd wedi creu taith Dioddefwyr ar ei gwefan sy'n egluro beth sy'n digwydd ar wahanol gamau yn y broses a'ch hawliau dan y Cod Dioddefwyr. Mae ar gael yn **victimscommissioner.org.uk/victims-journey**.

## Beth sy'n digwydd pan fyddwch chi'n rhoi gwybod i'r heddlu am ddigwyddiad

Pan fyddwch yn rhoi gwybod am drais rhywiol neu ymosodiad rhywiol difrifol i'r heddlu, byddant yn cynnal ymchwiliad. Mae hyn yn golygu y byddant yn chwilio am yr holl dystiolaeth y gallant ei chael i ddeall beth ddigwyddodd.

Bydd yr heddlu'n cofnodi eich disgrifiad o'r hyn a ddigwyddodd. Gall hyn fod ar ffurf datganiad tyst ysgrifenedig ond fel arfer bydd hyn ar ffurf recordiad fideo ohonoch yn dweud beth ddigwyddodd wrth swyddog heddlu sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig.

Fel rhan o'u hymchwiliad bydd yr heddlu hefyd yn cymryd datganiadau gan unrhyw un arall a welodd beth ddigwyddodd neu a all ddarparu gwybodaeth i helpu'r ymchwiliad. Mae hyn yn cynnwys cyfweliad gan yr heddlu gyda'r person, neu bobl, yr ydych chi wedi adrodd eu bod wedi eich treisio neu wedi ymosod arnoch chi – ar hyn o bryd, fe'u gelwir yn berson(au) dan amheuaeth.

Bydd ymchwiliad yr heddlu hefyd yn cynnwys chwilio am fathau eraill o dystiolaeth fel tystiolaeth feddygol, tystiolaeth Teledu Cylch Cyfyng neu dystiolaeth ddigidol fel negeseuon testun neu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. Os bydd yr heddlu angen casglu tystiolaeth o'ch dyfeisiau, byddant yn gofyn am eich caniatâd i wneud hyn. Gallwch ddarllen mwy am hyn yn ein hadran ar ddefnyddio tystiolaeth ddigidol, ar dudalen 13.

Pan fydd yr heddlu'n credu bod ganddynt ddigon o dystiolaeth, byddant yn trosglwyddo'r achos i ni yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron. Os yw'r heddlu wedi cwblhau eu hymchwiliad ond nad ydynt yn credu bod digon o dystiolaeth, ni fyddant yn trosglwyddo'r achos i ni. Os bydd hyn yn digwydd, bydd eich cyswllt yn yr heddlu yn esbonio eu penderfyniad i chi ac yn rhoi gwybod i chi pa opsiynau sydd gennych.

Unwaith y bydd yr heddlu'n trosglwyddo'r achos i ni, byddwn yn adolygu'r dystiolaeth ac yn ystyried a allwn erlyn – mae hyn yn golygu cyhuddo'r unigolyn a amheuir o drosedd a dod ag ef i'r llys.

Rydym yn gwneud y penderfyniad hwn drwy ddilyn prawf dau gam a nodir yn ein Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, sydd ar gael yn **cps.gov.uk/publication/code-crown-prosecutors**. Gallwch ddarllen mwy am hyn yn yr adran ar wneud ein penderfyniad, ar dudalen 17.

Nid ydym yn ymchwilio i droseddau ac ni allwn adolygu achos os na chaiff ei anfon atom gan yr heddlu.

Fodd bynnag, mewn achosion o dreisio neu ymosodiad rhywiol difrifol, rydym yn cynnig 'cyngor cynnar' i'r heddlu. Mae hyn yn golygu, os byddant yn gofyn am gyngor gennym, ein bod yn gweithio gyda nhw cyn gynted â phosibl i'w cynghori ynghylch pa fath o dystiolaeth i chwilio amdani i'w helpu i adeiladu'r achos. Mae gweithio gyda'n gilydd yn ein helpu i adeiladu achosion cryf mor gyflym ac mor effeithiol â phosibl.

## Pwy fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi

Mae gennych hawl dan y Cod Dioddefwyr i gael gwybodaeth am yr ymchwiliad a'r erlyniad. Bydd yr heddlu'n rhoi gwybod i chi beth sy'n digwydd yn eich achos ar bob cam – gan gynnwys os neu pryd y bydd angen i chi fynd i'r llys.

Bydd yr heddlu'n neilltuo swyddog i'ch achos. Efallai y bydd y swyddog yn cael ei alw'n 'OIC' weithiau hefyd, sy'n fyr ar gyfer *Officer in the Case* yn Saesneg, sef Swyddog yn yr Achos. Bydd yr

heddlu hefyd yn rhoi gwybod i chi pwy y gallwch gysylltu â nhw os oes gennych gwestiynau ar unrhyw adeg. Weithiau swyddog heddlu fydd hwn ac weithiau bydd yn staff arbenigol i gefnogi dioddefwyr fel Swyddog Gofal Tystion. Bydd eich cyswllt yn yr heddlu yn trafod â chi sut a phryd y bydd yn cysylltu â chi er mwyn i chi allu cytuno ar yr hyn sy'n gweithio i chi. Bydd hefyd yn dweud wrthych chi sut mae cysylltu os oes gennych chi gwestiynau ar unrhyw adeg. Mae gennych hawl dan y Cod Dioddefwyr i gael gwybodaeth mewn ffordd sy'n hawdd ei deall – os ydych chi'n ei chael hi'n anodd deall unrhyw beth mae'r swyddog yn ei ddweud wrthych, cofiwch ddweud hynny, a bydd yn gwneud yn siŵr ei fod yn egluro pethau mewn ffordd y gallwch ei deall.

Os oes gennych chi Gynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVA), gall eich cefnogi yn eich cyswllt â'r heddlu a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi'n uniongyrchol os byddai'n well gennych chi hynny. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Gynghorwyr Annibynnol yn ein hadran ar ba gymorth sydd ar gael i'ch helpu.

Fel arfer, ni fyddwch yn siarad â rhywun o Wasanaeth Erlyn y Goron yn ystod camau cynnar eich achos. Fel arfer, dim ond yn y llys neu mewn amgylchiadau lle bu'n rhaid i ni newid y cyhuddiadau neu stopio'r achos y byddwn yn cwrdd â dioddefwyr. Byddwn yn dal i weithio ar eich achos felly gallwch roi gwybod i'r heddlu neu i'ch Cynghorydd Annibynnol os oes gennych chi unrhyw gwestiynau i'r erlynydd.

## Ein hymrwymiad i ddioddefwyr trais ac ymosodiad rhywiol difrifol

Mae treisio ac ymosodiad rhywiol difrifol yn droseddau dinistriol ac mae ein herlynwyr yn gweld bob dydd yr effaith barhaol a gânt ar ddioddefwyr. Os ydych chi wedi dioddef ymosodiad rhywiol, mae'n bwysig cofio nad chi oedd ar fai. Mae trais rhywiol yn drosedd, ni waeth pwy sy'n ei gyflawni na ble mae'n digwydd. Mae'r wybodaeth yn y canllaw hwn yn berthnasol i bob un sydd wedi dioddef trais rhywiol – gan gynnwys menywod a merched a dynion a bechgyn.

Rydym yn gwybod y gall mynd drwy'r broses cyfiawnder troseddol deimlo weithiau fel ei bod yn ychwanegu mwy o heriau, ond rydym eisiau gwneud pethau mor syml â phosibl i chi. Rydym wedi gwneud ymrwymiad i ddioddefwyr trais a throseddau rhywiol difrifol, sy'n egluro sut y byddwn yn delio â'ch achos, beth y gallwch ei ddisgwyl gennym ni a beth yw eich hawliau. Mae ar gael yn **cps.gov.uk/rasso-commitment**.

Mae pob achos o dreisio a throseddau rhywiol difrifol yn cael eu hadolygu gan ein herlynwyr 'trais a throseddau rhywiol difrifol' arbenigol (RASSO). Maent wedi'u hyfforddi'n arbennig i ddeall cymhlethdodau achosion o drais a throseddau rhywiol a'r mythau a'r stereoteipiau sydd o'u cwmpas.

Weithiau, efallai bod y digwyddiad rydych chi wedi rhoi gwybod amdano i'r heddlu wedi digwydd amser maith yn ôl. Byddwn yn trin yr achosion hyn yn yr un ffordd ag y byddem yn trin unrhyw achos arall ac nid oes terfyn amser ar ba mor hir ar ôl y drosedd y gallwch chi roi gwybod amdani, er y gallai'r troseddau y gallwn ni gyhuddo rhywun ohonynt fod yn wahanol.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn erlyn yr achosion hyn yn **cps.gov.uk/about-cps/how-we-prosecute-rape**. Mae'n cynnwys fideos gan rai o'n herlynwyr yn egluro sut maent

wedi cefnogi dioddefwyr ac wedi gweithio gyda'n partneriaid cyfiawnder troseddol i ddod ag achosion cymhleth i'r llys.

Mae addewid ein Herlynydd hefyd yn nodi'r hyn y gallwch chi, fel dioddefwr trosedd, ei ddisgwyl gennym ni. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **cps.gov.uk/prosecutors-pledge**.

## Eich hawl i aros yn ddienw

Fel rhywun sydd wedi dioddef trosedd rhywiol, mae gennych hawl awtomatig i fod yn ddienw gydol eich oes yn y wasg neu mewn unrhyw gyhoeddiad arall. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n anghyfreithlon i'r cyfryngau, neu unrhyw un arall, gyhoeddi eich enw neu unrhyw beth sy'n nodi eich bod wedi dioddef trosedd rhywiol. Mae hyn yn cynnwys rhannu eich enw ar gyfryngau cymdeithasol.

Os byddwch yn dod yn ymwybodol ar unrhyw adeg bod eich hunaniaeth wedi cael ei rhannu ar-lein neu wedi'i chyhoeddi yn y cyfryngau, gallwch roi gwybod i'r heddlu am hyn a byddant yn cymryd camau.

# Pa gymorth sydd ar gael i'ch helpu



## Pa gymorth sydd ar gael i'ch helpu

Mae gennych hawl dan y Cod Dioddefwyr i gael eich cyfeirio at wasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr. Gallwch gysylltu â nhw eich hun neu gallwch ofyn i'ch cyswllt yn yr heddlu eich cyfeirio. Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o wasanaethau a chymorth a allai fod yn ddefnyddiol i chi.

Os oes angen help arnoch mewn argyfwng unrhyw bryd, ffoniwch 999.

### Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol

Gall Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol (a elwir hefyd yn ISVA), ddarparu cymorth, cyngor a help proffesiynol i ddioddefwyr trais rhywiol, p'un a ydych yn rhoi gwybod i'r heddlu ai peidio. Os byddwch yn rhoi gwybod am y digwyddiad i'r heddlu, gall eich cynghorydd eich cefnogi drwy'r broses cyfiawnder troseddol, gan gynnwys mynd gyda chi ar ddiwrnod y treial neu ymweliad llys cyn-treial.  Mae yna dri grŵp ymbarél cenedlaethol sy'n darparu gwasanaethau ISVA:

- **The Survivors Trust** - thesurvivorstrust.org/independent-sexual-violence-advisers
- **Rape Crisis** - rapecrisis.org.uk/get-help/looking-for-information/rape-crisis-services/advocacy-isvas
- **Male Survivors Partnership** - malesurvivor.co.uk

Gallwch gysylltu ag unrhyw un o'r sefydliadau hyn i gael gwybod mwy am wasanaethau ISVA ac i wneud cais am ISVA. Gallwch hefyd ofyn i'r heddlu eich cyfeirio at wasanaeth ISVA.

### Cwnsela a therapi

Ceir gwasanaethau arbenigol sy'n darparu cwnsela a therapi i ddioddefwyr trais rhywiol ac ymosodiad rhywiol difrifol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan y sefydliadau canlynol:

- **1 in 6** - 1in6.uk
- **Survivors UK** - survivorsuk.org
- **Safeline** - safeline.org.uk
- **Rape Crisis** - rapecrisis.org.uk

Gallwch hefyd gael gafael ar wasanaethau cwnsela a therapïau seicolegol eraill gan y GIG drwy fynd i **nhs.uk/service-search/find-a-psychological-therapies-service**.

Dylech roi blaenoriaeth i'ch lles. Nid oes angen gohirio therapi neu gwnsela am unrhyw reswm sy'n gysylltiedig ag ymchwiliad neu erlyniad troseddol. Os ydych chi'n teimlo y byddai'n helpu, mae'n bwysig cael gafael arno cyn gynted â phosibl.

## Y Gwasanaeth Tystion

Gall y Gwasanaeth Tystion, sy'n cael ei redeg gan Gyngor ar Bopeth, eich helpu i ddeall beth i'w ddisgwyl yn y llys drwy gynnig cymorth cyn-treial ac ymweliad â'r llys cyn y diwrnod. Mae hyn yn golygu y byddant yn eich tywys o amgylch llys ac yn egluro beth fydd yn digwydd ar y diwrnod.

Byddant yno hefyd i'ch cefnogi ar ddiwrnod y treial a gallant ddod gyda chi i ystafell y llys os byddai hynny o gymorth i chi. Gall yr heddlu eich cyfeirio at y Gwasanaeth Tystion neu gallwch ofyn am gymorth ganddynt eich hun drwy lenwi ffurflen fer yn **citizensadvice.org.uk/witness**.

Yn Llundain, darperir cymorth cyn treial gan Gymorth i Ddioddefwyr. Mae rhagor o wybodaeth am y cymorth maent yn ei gynnig ar gael yn **victimsupport.org.uk**.

## Cymorth arbenigol arall

Mae sefydliadau arbenigol eraill sy'n darparu cymorth i ddioddefwyr trais a cham-drin rhywiol. Mewn llawer o achosion, mae'r cymorth y maent yn ei gynnig ar gael, ni waeth a ydych yn dewis rhoi gwybod i'r heddlu am y digwyddiad ai peidio. Os byddwch yn penderfynu rhoi gwybod am y digwyddiad, mae cymorth ar gael drwy gydol y broses cyfiawnder troseddol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Gwybodaeth i Ddioddefwyr a Thystion y Weinyddiaeth Gyfiawnder **victimandwitnessinformation.org.uk** ac ar y dudalen cymorth ar gyfer trais rhywiol a cham-drin: **gov.uk/government/publications/coronavirus-covid-19-support-for-victims-of-sexual-violence-and-abuse**.

## Digolledu am anafiadau troseddol

Cynllun a ariennir gan y llywodraeth yw'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol, a'i nod yw digolledu dioddefwyr troseddau treisgar.

Efallai y bydd gennych hawl i gael iawndal os ydych wedi dioddef anaf neu golled o ganlyniad i drosedd. Mae'r cynllun wedi'i gynllunio i fod yn un o'r dewisiadau olaf i ddioddefwyr, nad oes ganddynt unrhyw ffordd arall o gael iawndal.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y cynllun a'r terfynau amser ar gyfer gwneud cais yn y canllaw ar iawndal am anafiadau troseddol ar gov.uk: **gov.uk/guidance/criminal-injuries-compensation-a-guide.**

## Cymorth i roi eich tystiolaeth

Os bydd eich achos yn mynd i dreial, mae cefnogaeth ar gael i'ch helpu i roi eich tystiolaeth. Gallwch ddarllen mwy am hyn yn yr adran Cymorth i roi eich tystiolaeth, ar dudalen 35.

# Sut rydym yn gweithio gyda'r heddlu wrth iddynt adeiladu eu hachos

**Cynnwys:**

- Pa fath o dystiolaeth fydd yr heddlu'n chwilio amdani?
- Defnyddio tystiolaeth ddigidol
- Defnyddio gwybodaeth sydd gan bobl neu sefydliadau eraill amdanoch chi
- Eich datganiad personol dioddefwr
- Faint o amser y bydd ymchwiliad yr heddlu'n ei gymryd?



## Sut rydym yn gweithio gyda'r heddlu wrth iddynt adeiladu eu hachos

Mewn achosion o dreisio neu ymosodiad rhywiol difrifol, rydym yn cynnig 'cyngor cynnar' i'r heddlu. Mae hyn yn golygu, os byddant yn gofyn am gyngor gennym, ein bod yn gweithio gyda nhw cyn gynted â phosibl i'w cynghori ynghylch pa fath o dystiolaeth i chwilio amdani i'w helpu i adeiladu'r achos.

Mae gweithio gyda'n gilydd yn ein helpu i adeiladu achosion cryf mor gyflym ac mor effeithiol â phosibl.

### Pa fath o dystiolaeth fydd yr heddlu'n chwilio amdani?

Bydd y math o dystiolaeth y bydd yr heddlu'n chwilio amdani yn dibynnu ar amgylchiadau eich achos. Gwaith yr heddlu yw chwilio am unrhyw beth sy'n cefnogi'r hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthynt, ond hefyd unrhyw beth sy'n ei danseilio neu'n cefnogi'r hyn y mae'r sawl sy'n cael ei amau yn ei ddweud.

Mae'n bwysig bod yr heddlu'n creu darlun llawn o'r hyn a ddigwyddodd, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth y gallai'r amddiffyniad ei chyflwyno os bydd yr achos yn mynd i dreial.

Mae'r dystiolaeth y bydd yr heddlu'n ei chasglu yn aml yn cynnwys pethau fel:

- Recordiad fideo o'ch cyfweliad neu unrhyw ddatganiad ysgrifenedig rydych chi wedi'i roi i'r heddlu
- Eich Datganiad Personol Dioddefwr – os ydych wedi darparu un
- Datganiadau gan unrhyw dystion eraill neu recordiadau fideo o gyfweliadau â hwy
- Unrhyw adroddiad a ddarparwyd gan yr unigolyn a amheuir yn ystod ei gyfweliad â'r heddlu
- Tystiolaeth Teledu Cylch Cyfyng o'r digwyddiad neu ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad
- Tystiolaeth feddygol - tystiolaeth gan feddyg neu weithiwr meddygol proffesiynol arall yw hon
- Tystiolaeth ddigidol a gasglwyd o ffonau clyfar, cyfrifiaduron tabled neu ddeunydd a lwythwyd i lawr o gyfrifiaduron

### Defnyddio tystiolaeth ddigidol

Mewn rhai achosion, bydd yr heddlu'n gofyn am gael edrych ar eich dyfeisiau digidol, fel eich ffôn symudol, gliniadur neu gyfrifiadur tabled, fel rhan o'u hymchwiliad. Er enghraifft, efallai y bydd negeseuon neu luniau ar eich dyfais a all helpu i brofi dyddiadau, amseroedd neu rannau pwysig eraill o'r achos. Gall y deunydd hwn ein helpu i lunio'r achos cryfaf posibl.

Cyn gofyn am eich dyfais, bydd yr heddlu bob amser yn ystyried a oes ffordd arall o gasglu'r dystiolaeth, er enghraifft drwy edrych ar ddyfais yr unigolyn dan amheuaeth. Mewn llawer o achosion, bydd yr heddlu'n trafod hyn â ni a byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wneud yn siŵr mai dim ond pan fydd hynny'n gyfreithiol angenrheidiol y byddwn yn gofyn am gael edrych ar eich dyfeisiau.

Os oes angen casglu tystiolaeth o'ch dyfais, bydd yr heddlu'n gofyn i chi lofnodi ffurflen ganiatâd a fydd yn esbonio pam mae angen eich dyfais arnynt, beth y byddant yn chwilio amdano (a beth na fyddant) ar eich dyfais a phwysigrwydd y dystiolaeth hon i'r ymchwiliad. Byddant hefyd yn egluro'r effaith bosibl ar erlyniad os na fyddwch yn rhoi eich dyfais iddynt.

Dim ond gwybodaeth sy'n berthnasol i'r achos y bydd yr heddlu'n edrych arni. Mae pob achos yn wahanol, a bydd y penderfyniad ynghylch beth sy'n berthnasol yn dibynnu ar y ffeithiau unigryw yn eich achos.

Pan fo'n bosibl, bydd yr heddlu'n ystyried a ydynt yn gallu tynnu sgrinluniau yn hytrach na chadw gafael ar eich dyfeisiau a byddant bob amser yn ceisio eu dychwelyd atoch cyn gynted â phosibl. Os bydd angen i'r heddlu ddal gafael ar eich ffôn am gyfnod, gallant gynnig dyfais arall i chi yn y cyfamser. Mae gennych hawl dan y Cod Dioddefwyr i gael unrhyw eiddo a gymerwyd fel tystiolaeth yn ôl cyn gynted ag y bo modd.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu bryderon ynghylch sut byddwn ni'n defnyddio'r dystiolaeth a gesglir oddi ar eich dyfais, gallwch ofyn i'ch cyswllt yn yr heddlu a bydd yn fodlon ateb eich cwestiynau.

## Defnyddio gwybodaeth sydd gan bobl neu sefydliadau eraill amdanoch chi

Mewn rhai achosion, bydd angen i'r heddlu edrych ar wybodaeth sydd gan bobl neu sefydliadau eraill amdanoch chi. Weithiau, mae hyn yn cael ei alw'n 'ddeunydd trydydd parti'.

Er enghraifft, efallai y bydd angen iddynt edrych ar gofnodion meddygol os ydych wedi siarad â'ch meddyg am y digwyddiad.

Dim ond os bydd ganddynt reswm dros gredu y gallai fod yn berthnasol i'ch achos y bydd yr heddlu yn edrych ar y math hwn o wybodaeth.

Er enghraifft, ni all yr heddlu ofyn am gael gweld eich cofnodion meddygol 'rhag ofn' y gallai fod rhywbeth sy'n berthnasol i'r ymchwiliad. Ni allant ofyn am gael gweld gwybodaeth dim ond am eu bod yn ymchwilio i drosedd rhywiol chwaith.

Cyn gofyn am wybodaeth gan drydydd parti, rhaid i'r heddlu ystyried a oes ffordd arall y gallent gael gafael ar yr wybodaeth sy'n berthnasol yn eu barn hwy, er enghraifft drwy siarad â thyst.

Os bydd yr heddlu'n penderfynu bod angen iddynt ofyn am wybodaeth gan drydydd parti, byddant yn gwneud yn siŵr bod eu cais yn canolbwyntio ar yr wybodaeth a allai, yn eu barn hwy, fod yn berthnasol i'r achos. Er enghraifft, os oeddent yn gofyn am eich cofnodion meddygol, gallent ofyn am gael gweld cofnodion mis penodol yn hytrach na'ch cofnod meddygol llawn.

Os yw'r heddlu yn credu bod angen iddynt ofyn am eich nodiadau cwnsela, ni allant wneud hyn yn awtomatig. Rhaid i uwch swyddog heddlu gymeradwyo'r cais. Y rheswm am hynny yw bod yn rhaid i'r heddlu allu dangos y byddai'r wybodaeth yn y nodiadau cwnsela yn eu helpu i brofi neu wrthbrofi rhannau pwysig o'r ymchwiliad, er enghraifft, rhywbeth a allai helpu i gadarnhau beth

ddigwyddodd neu brofi bod rhywbeth heb ddigwydd. Mae'r broses y mae'n rhaid i'r heddlu ei dilyn yn rhan o brawf. Yr enw ar y prawf hwn yw 'prawf gwerth sylweddol y dystiolaeth'.

Bydd yr heddlu'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr ymchwiliad a dylech roi gwybod iddynt os oes gennych gwestiynau neu bryderon am unrhyw un o'r mathau o dystiolaeth y gallent chwilio amdanynt.

## Eich datganiad personol dioddefwr

Os ydych am wneud hynny, mae gennych hawl i roi datganiad personol ddioddefwr, dan y Cod Dioddefwyr. Mae hyn yn ychwanegol at eich datganiad tyst ac mae'n gyfle i chi egluro sut mae'r drosedd wedi effeithio arnoch chi ac unrhyw bryderon sydd gennych am yr achos.

Gallwch ysgrifennu eich datganiad personol dioddefwr gyda'r heddlu ar yr un pryd ag y byddwch yn rhoi eich datganiad tyst iddynt neu gallwch ei ychwanegu at yr achos ar unrhyw adeg cyn pob un o'r gwrandawiadau llys.

Unwaith y byddwch wedi gwneud datganiad, ni allwch ei dynnu'n ôl ond gallwch ddarparu fersiwn wedi'i ddiweddaru ar unrhyw adeg. Dylech ofyn i'ch cyswllt yn yr heddlu os hoffech wneud hyn.

Bydd yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r llysoedd yn defnyddio'ch datganiad i'n helpu i ddeall sut mae'r drosedd wedi effeithio arnoch chi. Bydd hyn yn ein helpu i adeiladu'r achos cryfaf posibl a hefyd yn sicrhau eich bod yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch drwy'r broses cyfiawnder troseddol. Bydd tîm yr amddiffyniad hefyd yn gallu gweld eich datganiad fel rhan o'r deunydd y mae'n rhaid i ni ei rannu â nhw cyn y treial – gallwch ddarllen rhagor am hyn yn yr adran ar yr hyn y mae angen i ni ei wneud cyn y treial.

## Faint o amser y bydd ymchwiliad yr heddlu'n ei gymryd?

Mae pob achos yn wahanol ac nid oes un ateb i'r cwestiwn hwn. Gall rhai achosion fod yn syml tra bydd gan eraill lawer o wahanol fathau o ymholiadau y bydd angen i'r heddlu eu dilyn neu ymchwilio iddynt.

Mae gennych hawl dan y Cod Dioddefwyr i gael gwybodaeth am yr ymchwiliad, felly os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am hynt eich achos, gallwch gysylltu â'ch cyswllt yn yr heddlu, a fydd yn fwy na pharod i'ch helpu.

Gall fod yn anodd aros am ddiweddariadau tra bydd yr ymchwiliad yn parhau ond bydd yr heddlu bob amser yn gwneud eu gorau i gasglu tystiolaeth cyn gynted â phosibl fel nad ydych yn aros yn hwy nag sydd ei angen.

# Sut rydym yn penderfynu beth i'w wneud yn eich achos chi

**Cynnwys:**


- Adolygu'r dystiolaeth
- Pa droseddau y gellid cyhuddo'r sawl a amheuir ohonynt?
- Sut mae'r gyfraith yn diffinio cydsyniad?
- Troseddau rhywiol nad ydynt yn rhai diweddar
- Gwneud ein penderfyniad
- Faint o amser mae'n ei gymryd i ni wneud ein penderfyniad?
- Os byddwn yn penderfynu cyhuddo rhywun a amheuir
- Os bydd angen rhagor o dystiolaeth arnom i wneud penderfyniad
- Os penderfynwn ni beidio â chyhuddo – a'ch hawl i gael adolygiad
- Hawl dioddefwyr i gael adolygiad

## Sut rydym yn penderfynu beth i'w wneud yn eich achos chi

Pan fydd yr heddlu'n credu bod ganddynt ddigon o dystiolaeth, byddant yn trosglwyddo'r achos i Wasanaeth Erlyn y Goron. Byddwn yn adolygu'r dystiolaeth ac yn ystyried a allwn erlyn.

Os nad yw'r heddlu'n credu bod ganddynt ddigon o dystiolaeth, ni fyddant yn trosglwyddo'r achos i ni ac ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd yn erbyn y sawl dan amheuaeth.

Os bydd hynny'n digwydd, bydd eich cyswllt yn yr heddlu yn esbonio pam, pa gymorth sydd ar gael i'ch helpu ac a oes unrhyw gamau eraill y gallant eu cymryd yn erbyn yr unigolyn dan amheuaeth. Os bydd yr heddlu'n penderfynu peidio ag anfon eich achos atom, gallwch ofyn i'r heddlu adolygu'r penderfyniad hwnnw – gelwir hyn yn Hawl Dioddefwr i Adolygiad. Gall eich cyswllt yn yr heddlu roi gwybod i chi sut i wneud hyn.

Mae'r adran hon yn egluro beth fydd yn digwydd pan fydd yr heddlu'n anfon yr achos atom, gan gynnwys sut rydym yn penderfynu beth i'w wneud ym mhob achos, beth fydd yn digwydd nesaf os penderfynwn gyhuddo rhywun a amheuir a beth yw eich hawliau os penderfynwn beidio â chyhuddo'r unigolyn a amheuir.

### Adolygu'r dystiolaeth

Bydd y ffeil y bydd yr heddlu yn ei hanfon atom yn cynnwys amrywiaeth o dystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys pethau fel:

- Cofnod o'ch cyfweliad(au) gyda'r heddlu
- Eich datganiad personol dioddefwr – os ydych wedi darparu un
- Datganiadau gan unrhyw dystion eraill neu recordiadau fideo o gyfweliadau â hwy
- Unrhyw adroddiad a ddarparwyd gan yr unigolyn a amheuir yn ystod ei gyfweliad â'r heddlu
- Tystiolaeth Teledu Cylch Cyfyng
- Tystiolaeth feddygol - tystiolaeth gan feddyg neu weithiwr meddygol proffesiynol arall yw hon
- Tystiolaeth ddigidol a gasglwyd o ffonau clyfar, cyfrifiaduron tabled neu ddeunydd a lwythwyd i lawr o gyfrifiaduron

Pan fyddwn yn adolygu'r dystiolaeth mewn achosion o dreisio neu ymosodiad rhywiol difrifol, byddwn yn canolbwyntio ar ymddygiad a gweithredoedd y sawl a amheuir. Weithiau, gelwir hyn yn ddull 'canolbwyntio ar y sawl a amheuir' neu'n ddull sy'n 'canolbwyntio ar y troseddwr'.

Bydd ffeil yr heddlu hefyd yn cynnwys rhestr o'r holl ddeunydd y maent wedi'i gasglu fel rhan o'u hymchwiliad nad yw'n rhan o'u tystiolaeth yn erbyn yr unigolyn a amheuir. Bydd yr heddlu'n dweud wrth erlynydd Gwasanaeth Erlyn y Goron os gallai unrhyw ran o'r deunydd hwn danseilio'r achos neu helpu achos yr amddiffyniad pe bai'r achos yn mynd i dreial.

## Pa droseddau y gellid cyhuddo'r sawl a amheuir ohonynt?

Mae'r adran hon yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r troseddau y gellir cyhuddo rhywun a amheuir ohonynt. Efallai y bydd rhai pobl yn ei chael yn anodd darllen yr adran hon. Mae gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr wedi'u rhestru yn yr adran 'Pa gymorth sydd ar gael i'ch helpu'.

Ceir tair prif drosedd sy'n cwmpasu troseddau trais ac ymosodiad rhywiol difrifol. Nodir y rhain yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003 a ddaeth i rym ar 1 Mai 2004.

Dyma ddiffiniadau cyfreithiol y troseddau hyn:

1. Trais Rhywiol. Treiddio fagina, anws neu geg person arall gyda phidyn, heb eu cydsyniad a heb gredu'n rhesymol eu bod yn cydsynio.

2. Ymosodiad Rhywiol drwy Dreiddio. Treiddio fagina neu anws rhywun arall gydag unrhyw ran o'r corff ar wahân i'r pidyn, neu gydag unrhyw wrthrych, heb eu cydsyniad a heb gredu'n rhesymol eu bod yn cydsynio.

3. Ymosodiad Rhywiol. Cyffyrddiad rhywiol bwriadol â pherson arall heb eu cydsyniad a heb gredu'n rhesymol eu bod yn cydsynio.

Mae'r troseddau hyn yn golygu bod person yn cyflawni trosedd drwy gymryd rhan mewn unrhyw fath o weithgarwch rhywiol heb eich cydsyniad neu heb gredu'n rhesymol eich bod wedi rhoi cydsyniad. Rydym wedi esbonio'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud am gydsyniad yn fanylach isod.

Gall dynion a menywod fod yn ddioddefwyr troseddau rhywiol ac rydym yn cymryd pob achos o droseddau rhywiol o ddifri.

## Sut mae'r gyfraith yn diffinio cydsyniad?

Mae'r gyfraith yn dweud bod person yn cydsynio i weithgarwch rhywiol dim ond os yw'n cytuno o ddewis a'i fod yn meddu ar:

- Y rhyddid i wneud y dewis hwnnw

ac

- Y gallu i wneud dewis ynghylch cymryd rhan yn y gweithgaredd rhywiol ar yr adeg dan sylw ai peidio.

Mae hyn yn golygu na allwch chi gydsynio i weithgarwch rhywiol os cewch eich gwthio neu eich gorfodi i wneud hynny mewn unrhyw ffordd. Mae hefyd yn golygu na allwch chi gydsynio os yw'r amgylchiadau'n golygu nad oes gennych y gallu i gydsynio ar y pryd. Er enghraifft, efallai na fydd gan rywun y gallu i gydsynio os ydynt wedi yfed llawer o alcohol neu wedi cymryd cyffuriau.

Fel rhan o'r achos, mae angen i ni hefyd brofi nad oedd gan y diffynnydd 'gred resymol' eich bod wedi cydsynio i'r gweithgaredd rhywiol. Mae cred 'resymol' yn golygu y byddai person rhesymol

wedi credu eich bod yn cydsynio dan yr amgylchiadau. Mewn geiriau eraill, does dim ots os yw'r sawl a amheuir yn dweud ei fod yn credu eich bod yn cydsynio os gallwn ni ddangos na fyddai person rhesymol wedi credu hynny yn yr amgylchiadau.

Does dim rhaid i chi fod wedi dweud nad oeddech yn cydsynio i ni gyflwyno'r achos na fyddai person rhesymol wedi credu eich bod yn cydsynio.

Mewn rhai sefyllfaoedd, mae'r gyfraith yn caniatáu i ni dybio nad oedd person wedi cydsynio i weithgarwch rhywiol ac nad oedd y diffynnydd yn 'credu'n rhesymol' eu bod wedi cydsynio, oni bai fod y diffynnydd yn gallu dangos fel arall. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle'r oedd y dioddefwr yn anymwybodol, wedi cael ei ddrygio, ei herwgipio neu ei fygwth â thrais.

Gall y gyfraith sy'n ymwneud â chaniatâd fod yn gymhleth. Siaradwch â'ch cyswllt yn yr heddlu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau.

## Troseddau rhywiol nad ydynt yn rhai diweddar

Does dim terfyn amser ar ba mor hir ar ôl y drosedd y cewch chi roi gwybod am y drosedd. Y gwahaniaeth allweddol yw os cyflawnwyd y drosedd cyn 1 Mai 2004, yna mae angen i ni ddefnyddio gwahanol ddeddfwriaeth i'w herlyn – bydd hyn yn golygu bod y troseddau y gallwn gyhuddo rhywun ohonynt yn wahanol.

Deddf Troseddau Rhywiol 1956 yw'r prif ddarn o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â throseddau rhywiol a ddigwyddodd cyn 1 Mai 2004.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am droseddau nad ydynt yn rhai diweddar, gallwch siarad â'ch cyswllt yn yr heddlu a all esbonio hyn yn fwy manwl i chi.

## Gwneud ein penderfyniad

Mae pob achos o dreisio a throseddau rhywiol difrifol yn cael eu hadolygu gan ein herlynwyr 'trais a throseddau rhywiol difrifol' arbenigol (RASSO). Maent wedi'u hyfforddi'n arbennig i ddeall cymhlethdodau'r mathau hyn o achosion a'r mythau a'r stereoteipiau sydd o'u cwmpas.

Er mwyn penderfynu a ddylid cyhuddo'r sawl a amheuir mewn achos ai peidio, mae ein herlynwyr yn defnyddio'r prawf dau gam sydd ar gael yn **cps.gov.uk/publication/code-crown-prosecutors**.

Y cam cyntaf yw'r 'cam tystiolaeth'. Yn y cam hwn, bydd ein herlynydd yn adolygu'r holl dystiolaeth a ddarparwyd gan yr heddlu ac yn gofyn y cwestiwn 'A oes digon o dystiolaeth yn erbyn yr unigolyn a amheuir i roi siawns realistig y caiff ei ddyfarnu'n euog?' Mae hynny'n golygu, ar ôl edrych ar yr holl dystiolaeth, a yw llys yn fwy tebygol na pheidio o gael y diffynnydd yn euog?

I ateb y cwestiwn hwn, rhaid iddynt ystyried a yw'r dystiolaeth y gallant ei defnyddio yn y llys yn ddibynadwy ac yn gredadwy ac a oes unrhyw ddeunydd arall a allai danseilio'r dystiolaeth honno.

Mae'r prawf hwn yn wahanol i'r prawf y mae'r llys yn ei ddefnyddio yn y treial. Pan fydd achos yn cyrraedd treial, rhaid i'r rheithgor fod yn **siŵr** bod diffynnydd yn euog er mwyn ei gael yn euog. Yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron, does dim rhaid i ni fod yn siŵr bod rhywun yn euog i fwrw ymlaen â'r achos – a dweud y gwir, nid ydym yn gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch a yw rhywun yn euog ai peidio.

Os na fydd yr achos yn pasio'r cam cyntaf hwn, ni allwn symud ymlaen i'r cam nesaf, ni waeth pa mor ddifrifol neu sensitif y gallai'r achos fod.

Yr ail gam yw'r 'prawf budd y cyhoedd'. Ar y cam hwn, bydd erlynydd Gwasanaeth Erlyn y Goron unwaith eto'n adolygu'r holl dystiolaeth a ddarparwyd gan yr heddlu ac yn gofyn y cwestiwn 'A yw erlyn er budd y cyhoedd?'.

I ateb y cwestiwn hwn, rhaid iddynt ystyried pethau fel difrifoldeb y drosedd, y niwed a achoswyd i'r dioddefwr, yr effaith ar gymunedau, ac oedran ac aeddfedrwydd yr unigolyn a amheuir adeg y drosedd.

Bydd erlyniad yn mynd yn ei flaen oni bai fod erlynydd yn penderfynu bod ffactorau budd y cyhoedd yn erbyn erlyniad yn drech na'r rhai sydd o blaid erlyn.

Mewn achosion o dreisio neu ymosodiad rhywiol difrifol, mae difrifoldeb y drosedd yn golygu, lle ceir digon o dystiolaeth, y bydd erlyniad bron bob amser yn mynd yn ei flaen. Mae penderfyniad i beidio ag erlyn yr achosion hyn am resymau budd y cyhoedd yn anghyffredin iawn a byddai angen i'r erlynydd roi rhesymau clir yn egluro eu penderfyniad.

Gallwch ddarllen rhagor am ein prawf dau gam yn **cps.gov.uk/publication/code-crown-prosecutors**.

## Faint o amser mae'n ei gymryd i ni wneud ein penderfyniad?

Mae pob achos yn wahanol ac nid oes un ateb i'r cwestiwn hwn. Gall rhai achosion fod yn syml tra bydd eraill â llawer o dystiolaeth y mae angen i ni ei hadolygu neu faterion cyfreithiol y mae angen i ni eu datrys.

Rydym yn gwybod pa mor anodd y gall fod wrth i chi aros am y penderfyniad hwn, felly byddwn bob amser yn gwneud ein gorau i adolygu'r dystiolaeth yn gyflym ac yn effeithlon fel nad ydych chi'n aros yn hwy nag sydd angen. Mae gennych hawl dan y Cod Dioddefwyr i gael gwybodaeth am yr ymchwiliad a'r erlyniad, felly os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am hynt eich achos, gallwch gysylltu â'ch cyswllt yn yr heddlu, a fydd yn fwy na pharod i'ch helpu.

## Os byddwn yn penderfynu cyhuddo rhywun a amheuir

Os bydd ein herlynydd yn penderfynu bod ein prawf dau gam wedi'i fodloni, byddwn yn dweud wrth yr heddlu pa drosedd(au) y gallant gyhuddo'r sawl a amheuir ohonynt.

Bydd yr heddlu wedyn yn cyhuddo'r sawl a amheuir. Ar y pwynt hwn, bydd yr unigolyn a amheuir yn cael ei adnabod fel y diffynnydd.

Mewn rhai achosion, er enghraifft, os yw’r heddlu’n credu bod risg y gallai’r diffynnydd gyflawni trosedd arall neu fethu â bod yn bresennol yn y llys, efallai y bydd y diffynnydd yn cael ei ‘remandio yn y ddalfa’. Mae hyn yn golygu y bydd yn cael ei ddal gan yr heddlu, fel arfer mewn cell heddlu, hyd nes y bydd wedi ymddangos gerbron barnwr pryd y gall ofyn am gael mechnïaeth.

Bydd yr heddlu’n rhoi gwybod i chi bod y diffynnydd wedi cael ei gyhuddo, pa droseddau y mae wedi cael ei gyhuddo ohonynt ac a yw wedi cael ei remandio yn y ddalfa. Os nad yw’r diffynnydd wedi’i remandio yn y ddalfa, bydd yr heddlu’n ei ryddhau cyn y gwrandawiad llys cyntaf. Os bydd hynny’n digwydd, bydd yr heddlu’n rhoi gwybod i chi a oes unrhyw amodau ar waith y mae’n rhaid i’r diffynnydd eu dilyn, er enghraifft aros i ffwrdd oddi wrthych chi neu oddi wrth fan penodol. Gallwch ddarllen mwy am hyn yn ein hadran ar fechnïaeth, ar dudalen 24. Bydd yr heddlu hefyd yn rhoi gwybod i chi pryd y cynhelir y gwrandawiad llys cyntaf.

Y cam nesaf yw gwrandawiad cyntaf yr achos a fydd yn cael ei gynnal yn y llys ynadon, ac mae gwybodaeth am hyn ar gael ar dudalen 24.

## Os bydd angen rhagor o dystiolaeth arnom i wneud penderfyniad

Os bydd ein herlynydd yn penderfynu nad oes digon o dystiolaeth i gyhuddo’r unigolyn a amheuir ar hyn o bryd, yna bydd yn ystyried a oes rhagor o dystiolaeth y gallai’r heddlu chwilio amdani i wneud yr achos yn gryfach. Os credwn y gallai mwy o ymchwiliadau gan yr heddlu helpu, byddwn yn gofyn i’r heddlu barhau â’u hymchwiliad a rhoi unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gallant ddod o hyd iddi, i ni.

Os bydd yr heddlu’n dod o hyd i ragor o dystiolaeth, gall yr achos wedyn ddod yn ôl atom a byddwn yn penderfynu o’r newydd a ddylid erlyn y sawl a amheuir ai peidio.

Bydd yr heddlu’n rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr hyn sy’n digwydd yn yr achos os bydd angen iddynt chwilio am ragor o dystiolaeth.

## Os penderfynwn ni beidio â chyhuddo – a’ch hawl i gael adolygiad

Os bydd ein herlynydd yn penderfynu nad yw’r achos yn pasio ein prawf dau gam, ac nad oes unrhyw dystiolaeth bellach y gallai’r heddlu chwilio amdani a fyddai’n newid hyn, ni fydd modd iddynt gyhuddo’r sawl a amheuir. Gelwir hyn hefyd yn benderfyniad i gynghori ‘dim camau pellach’ (NFA).

Os byddwn yn penderfynu peidio ag erlyn yr achos, byddwn yn egluro’r rhesymau dros hynny ac mae gennych chi hawl i ofyn i ni edrych ar ein penderfyniad eto. Gelwir hyn yn ‘Hawl Dioddefwyr i Adolygiad’.

## Hawl dioddefwyr i gael adolygiad

Nid oes proses ffurfiol y mae angen i chi ei dilyn i ofyn am adolygiad o’ch achos – y cyfan y mae angen i chi ei wneud yw rhoi gwybod i ni yr hoffech i ni edrych ar ein penderfyniad eto.

Os hoffech chi, gallwch gynnwys gwybodaeth ynghylch pam yr hoffech i ni adolygu'r achos neu pam eich bod yn meddwl bod y penderfyniad yn anghywir, ond nid oes angen i chi wneud hyn – mae'n ddigon dweud wrthym eich bod am i ni adolygu'r penderfyniad.

Os hoffech wneud cais am adolygiad, dylech wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl i ni roi gwybod i chi am ein penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'ch achos ac, yn ddelfrydol, dim hwyrach na 10 diwrnod gwaith (pythefnos) yn ddiweddarach. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gallwn dderbyn ceisiadau a wneir dros dri mis ar ôl y penderfyniad – er enghraifft, os na ddywedwyd wrthych ar y pryd am eich hawl i gael adolygiad.

Os byddwch yn gofyn am adolygiad, bydd erlynydd newydd yn adolygu'r holl dystiolaeth ac yn defnyddio ein prawf dau gam eto i ddod i'w benderfyniad ei hun yn yr achos. Efallai y bydd yn penderfynu bod y prawf cyfreithiol wedi'i fodloni a bod modd cyhuddo'r sawl a amheuir neu efallai y bydd yn cytuno â'r penderfyniad na ddylid cymryd camau pellach.

Ar ôl iddo gwblhau'r adolygiad hwn, bydd yn ysgrifennu atoch i esbonio'i benderfyniad. Bydd hefyd yn cynnig siarad â chi dros y ffôn neu wyneb yn wyneb i drafod yr achos os byddai hynny o gymorth i chi. Os ydych chi wedi darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol ochr yn ochr â'ch cais am adolygiad – er enghraifft, gwybodaeth ynghylch pam rydych chi'n meddwl bod y penderfyniad yn anghywir, bydd yr erlynydd yn mynd i'r afael ag unrhyw bwyntiau rydych chi wedi'u codi yn ei esboniad.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr erlynydd yn dweud wrthych beth yw ei benderfyniad o fewn 30 diwrnod gwaith (tua chwe wythnos). Os yw'r adolygiad yn debygol o gymryd mwy o amser na hyn, er enghraifft os oes llawer o dystiolaeth i'w hystyried, byddwn yn rhoi gwybod i chi faint o amser y mae'r adolygiad yn debygol o'i gymryd ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein cynnydd.

Os nad ydych chi'n hapus â phenderfyniad yr erlynydd newydd, gallwch ofyn am adolygiad pellach o'r achos. Bydd hyn yn cael ei wneud gan ein Huned Apeliadau ac Adolygu. Byddant yn adolygu'r holl dystiolaeth ac yn defnyddio ein prawf dau gam i ddod i'w penderfyniad ei hunain yn yr achos. Byddant yn ysgrifennu atoch i esbonio eu penderfyniad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein tudalen Hawl Dioddefwyr i Adolygiad **cps.gov.uk/legal-guidance/victims-right-review-scheme**.

# **Ar ôl i ddiffynnydd gael ei gyhuddo:**

## Y gwrandawiad cyntaf yn y llys ynadon

**Cynnwys:**

- Y llys ynadon
- Penderfynu ble y bydd achos yn cael ei glywed
- Mechnïaeth



## Ar ôl i ddiffynnydd gael ei gyhuddo – Y gwrandawiad cyntaf yn y llys ynadon

### Y llys ynadon

Ceir gwahanol fathau o lysoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae pob achos troseddol yn dechrau gyda gwrandawiad cyntaf yn y llys ynadon.

Mewn llysoedd ynadon, gwneir penderfyniadau naill ai gan banel o ynadon neu gan farnwr rhanbarth.

Mae ynadon yn wirfoddolwyr sydd wedi cael hyfforddiant i ymgymryd â'r rôl hon ond nid ydynt yn weithwyr cyfreithiol proffesiynol. Fe'u cefnogir gan gynghorydd cyfreithiol sy'n gyfreithiwr neu fargyfreithiwr hyfforddedig a'i rôl yw darparu cyngor ac arweiniad cyfreithiol i'r ynadon.

Mae barnwyr rhanbarth yn weithwyr cyfreithiol proffesiynol hyfforddedig a fydd wedi ymarfer fel cyfreithiwr neu fargyfreithiwr cyn dod yn farnwr.

### Penderfynu ble y bydd achos yn cael ei glywed

Defnyddir y gwrandawiad cyntaf weithiau i benderfynu a ddylai achos aros yn y llys ynadon neu a ddylid ei anfon i Lys y Goron. Mae achosion o dreisio ac ymosodiad rhywiol difrifol mor ddifrifol fel y bydd y llys ynadon bob amser yn eu hanfon i Lys y Goron i'w clywed gerbron rheithgor.

Bydd achosion trais rhywiol ac ymosodiad rhywiol difrifol sy'n ymwneud â diffynyddion dan 18 oed (nad ydynt wedi'u cyhuddo ar y cyd ag oedolyn) yn cael eu hanfon yn gyntaf i'r llys ieuenctid yn hytrach na'r llys ynadon. Bydd yr ynadon neu'r Barnwr Rhanbarth yn y llys ieuenctid wedyn yn penderfynu a ddylai'r achos aros yno neu a ddylid ei anfon i Lys y Goron. Fel arfer, bydd yr achosion hyn yn aros yn y llys ieuenctid gan fod rheolau gwahanol ar gyfer achosion sy'n cynnwys troseddwyr ifanc.

### Mechnïaeth

Yn y gwrandawiad cyntaf, bydd y llys ynadon yn penderfynu a ddylid rhyddhau'r diffynnydd ar fechnïaeth.

Ystyr mechnïaeth yw pan benderfynir nad oes angen cadw'r diffynnydd yn y carchar cyn y treial. Os caiff diffynnydd ei ryddhau ar fechnïaeth, mae'n dal yn ofynnol iddo ddod i'r llys ar bob cam o'r broses ond ni fydd yn cael ei gadw yn y carchar rhwng gwrandawiadau.

Os na chaiff diffynnydd ei ryddhau ar fechnïaeth, bydd yn cael ei gadw yn y ddalfa (yn y carchar) tan y treial.

Bydd erlynydd Gwasanaeth Erlyn y Goron a thwrnai'r amddiffyniad yn cyflwyno dadleuon i'r llys ynghylch a ddylid caniatáu mechnïaeth i'r diffynnydd. Mater i'r llys wedyn fydd gwneud y penderfyniad hwn.

Os caiff diffynnydd ei ryddhau ar fechnïaeth, bydd y llys yn aml yn nodi rhai amodau y mae'n rhaid i'r diffynnydd eu bodloni er mwyn cael caniatâd i aros ar fechnïaeth. Bydd yr heddlu'n esbonio i chi a oes unrhyw amodau y mae'n rhaid i'r diffynnydd eu dilyn a beth maen nhw'n ei olygu'n ymarferol. Gallai amodau mechnïaeth gynnwys pethau fel y diffynnydd yn ildio'i basbort neu'n cael gorchymyn i beidio â chysylltu â chi neu fynd i'r ardal lle rydych chi'n byw.

Os bydd diffynnydd yn torri unrhyw un o'r amodau hyn, efallai y caiff ei gadw yn y ddalfa (ei anfon i garchar) cyn y treial. Os oes gennych unrhyw wybodaeth sy'n awgrymu bod diffynnydd wedi torri un o'r amodau hyn neu os oes gennych unrhyw bryderon o gwbl, dylech gysylltu â'r heddlu cyn gynted ag y bo modd.

Bydd yr heddlu'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr hyn sy'n digwydd yn y gwrandawiad hwn.


I ddiffynnydd sy'n oedolyn, y cam nesaf yw gwrandawiad cyntaf yr achos yn Llys y Goron. Gallwch ddarllen mwy am hyn ar dudalen 27.

# Y gwrandawiad cyntaf yn Llys y Goron:

## Gwrandawiad pledio a pharatoi ar gyfer treial

### Cynnwys:


- Llys y Goron
- Os yw'r diffynnydd yn pledio'n 'euog' i bob cyhuddiad
- Os yw'r diffynnydd yn pledio'n 'euog' i rai o'r cyhuddiadau
- Os yw'r diffynnydd yn pledio'n 'ddieuog' i bob cyhuddiad

## Y gwrandawiad cyntaf yn Llys y Goron – y gwrandawiad pledio a pharatoi ar gyfer treial

### Llys y Goron

Llys y Goron sy'n delio â'r achosion troseddol mwyaf difrifol. Goruchwylir pob achos gan farnwr sy'n gyfrifol am bennu amserlen yr achos, gan benderfynu ar unrhyw gwestiynau cyfreithiol (fel a ellir defnyddio mathau penodol o dystiolaeth) a dedfrydu'r diffynnydd os ceir ef yn euog.

Os bydd achos yn mynd i dreial, bydd yn cael ei glywed gan reithgor. Mae'r rheithgor yn cynnwys 12 aelod o'r cyhoedd a ddewisir ar hap o'r rhestr etholiadol. Yn Llys y Goron, y rheithgor sy'n penderfynu a yw'r diffynnydd yn 'euog' neu'n 'ddieuog'.

Mae gennych hawl dan y Cod Dioddefwyr i gael gwybodaeth am y treial a phroses y treial.

Fel arfer, y gwrandawiad cyntaf yn Llys y Goron yw'r 'Gwrandawiad Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial' (PTPH).

Yn y gwrandawiad hwn, bydd clerc y llys yn darllen y rhestr o droseddau y cyhuddwyd y diffynnydd ohonynt (y ditiad) ac yn gofyn i'r diffynnydd bledio'n 'euog' neu'n 'ddieuog'. Gelwir y broses hon yn areiniad.

Gall unrhyw aelod o'r cyhoedd fynychu unrhyw wrandawiad mewn llys troseddol.

### Os yw'r diffynnydd yn pledio'n 'euog' i bob cyhuddiad

Os yw'r diffynnydd yn pledio'n 'euog' i'r cyhuddiadau i gyd, gall y barnwr naill ai ddedfrydu'r diffynnydd ar unwaith neu gall ohirio'r gwrandawiad dedfrydu i ofyn am ragor o wybodaeth i'w helpu i benderfynu beth ddylai'r ddedfryd fod.

Gall hyn gynnwys adroddiad 'cyn-dedfrydu', a ysgrifennir gan y gwasanaeth prawf, sy'n darparu asesiad annibynnol o'r troseddwr a'r risgiau a berir ganddo.

Byddwn hefyd yn rhoi eich 'Datganiad Personol Dioddefwr' i'r llys os ydych wedi ysgrifennu un. Bydd yr heddlu'n gofyn i chi a hoffech chi ysgrifennu un yn ystod yr ymchwiliad – dyma eich cyfle chi i egluro sut mae'r drosedd wedi effeithio arnoch chi.

Os hoffech ddarllen eich 'Datganiad Personol Dioddefwr' yn uchel i'r llys, yna gallwn wneud cais i'r llys i chi gael gwneud hyn.  Fel arall, bydd yr erlynydd yn ei ddarllen i'r llys ar eich rhan. Os byddwch yn darllen eich 'datganiad personol dioddefwr' i'r llys eich hun, mae gennych hawl i gael mesurau arbennig i wneud hynny. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am fesurau arbennig ar dudalen 35.

Yna bydd y barnwr yn defnyddio'r wybodaeth honno i benderfynu pa ddedfryd y bydd y diffynnydd yn ei derbyn yn unol â'r canllawiau dedfrydu ar gyfer y drosedd y mae wedi'i gael yn euog ohoni.

Pennir canllawiau dedfrydu gan y cyngor dedfrydu yn unol â chyfraith y DU. Gallwch ddarllen mwy am ddedfrydu yn **sentencingcouncil.org.uk/sentencing-and-the-council**.

## Os yw'r diffynnydd yn pledio'n 'euog' i rai o'r cyhuddiadau

Os bydd y diffynnydd yn pledio'n 'euog' i rai o'r cyhuddiadau ond yn 'ddieuog' i eraill, bydd yn rhaid i erlynydd Gwasanaeth Erlyn y Goron benderfynu a ddylid derbyn y pleon 'euog' ai peidio.

Mae angen iddynt hefyd benderfynu pa gamau i'w cymryd yng nghyswllt y cyhuddiadau y mae'r diffynnydd wedi pledio'n 'ddieuog' iddynt.

Mae gan yr erlynydd ddau opsiwn:

1. Gall naill ai 'gynnig dim tystiolaeth' ar gyfer y cyhuddiadau y mae'r diffynnydd wedi pledio'n 'ddieuog' iddynt neu gall ofyn i'r cyhuddiadau hyn 'aros ar y ffeil'. Os na fyddwn yn cynnig unrhyw dystiolaeth, mae hyn yn golygu bod y llys wedi derbyn rheithfarn 'dieuog' ar gyfer y cyhuddiadau hynny ac ni allwn gymryd camau pellach yn eu cylch. Os ydym yn credu y dylai'r cyhuddiadau aros ar y ffeil, mae angen i ni ofyn am ganiatâd y barnwr i wneud hyn. Yn dechnegol, gallai cyhuddiadau sy'n aros ar ffeil gael eu hailgychwyn yn ddiweddarach ond mae hyn yn anghyffredin iawn. Bydd y barnwr wedyn yn dedfrydu'r diffynnydd am y cyhuddiadau y mae'r diffynnydd wedi pledio 'euog' iddynt yn unig.

Neu

2. Gall ofyn i'r cyhuddiadau y mae'r diffynnydd wedi pledio'n 'ddieuog' iddynt gael eu rhestru ar gyfer treial. Ni fydd y diffynnydd yn cael ei ddedfrydu am unrhyw gyhuddiadau hyd nes y bydd y treial wedi'i gynnal.

I wneud y penderfyniad hwn, mae'n rhaid i'r erlynydd ystyried nifer o ffactorau sydd wedi'u nodi yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron (**cps.gov.uk/publication/code-crown-prosecutors**) a chanllawiau'r Twrnai Cyffredinol ar dderbyn pleon (**gov.uk/guidance/the-acceptance-of-pleas-and-the-prosecutors-role-in-the-sentencing-exercise**).

Mae hyn yn cynnwys a fyddai'r llys yn gallu rhoi dedfryd i'r diffynnydd sy'n adlewyrchu difrifoldeb y troseddau yr ydym wedi cyhuddo'r diffynnydd ohonynt. Er enghraifft, pe bai diffynnydd yn pledio'n 'euog' i drosedd fwy dibwys fel dwyn ond yn 'ddieuog' i drosedd fwy difrifol fel trais rhywiol, yna ni fyddai'r ddedfryd y gallai'r llys ei rhoi iddo yn adlewyrchu difrifoldeb y troseddau y bu i ni ei gyhuddo ohonynt. Os nad ydym yn credu y byddai'r llys yn gallu rhoi dedfryd briodol i'r diffynnydd, yna byddwn yn gofyn i'r cyhuddiadau sy'n weddill gael eu rhestru ar gyfer treial.

Lle bo'n bosibl, byddwn yn ystyried eich barn chi fel dioddefwr er mwyn ein helpu i benderfynu a yw er budd y cyhoedd i dderbyn y ple.

## Os yw’r diffynnydd yn pledio’n ‘ddieuog’ i bob cyhuddiad

Os yw’r diffynnydd yn pledio’n ‘ddieuog’ i’r holl gyhuddiadau, bydd y barnwr yn pennu dyddiad ar gyfer y treial.

# Beth mae angen i ni ei wneud cyn y treial

## Cynnwys:

- Paratoi'r dystiolaeth a rhannu ein hachos
- Cynnig i gael cyfarfod gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Rhannu deunydd ychwanegol gyda'r amddiffyniad – datgelu
- Sut rydym yn diogelu eich preifatrwydd
- Gofyn am ganiatâd i ddefnyddio mathau penodol o dystiolaeth
- Adolygu tystiolaeth newydd
- Gwrandawiadau i wirio cynnydd yr achos - 'Gwrandawiadau Gweinyddol'



## Beth mae angen i ni ei wneud cyn y treial

Mae'r adran hon yn egluro beth y mae angen i'n herlynwyr ei wneud cyn y treial. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ba gymorth sydd ar gael i'ch helpu i roi eich tystiolaeth ar dudalen 35 a beth fydd angen i chi ei wneud cyn y treial ar dudalen 39.

### Paratoi'r dystiolaeth a rhannu ein hachos

Cyn i'r treial ddechrau, mae angen i ni baratoi ein hachos drwy gasglu ynghyd yr holl dystiolaeth rydym am ei defnyddio yn y treial.  Yna rydym yn cael dyddiad, a bennir gan y barnwr, erbyn pryd y mae'n rhaid i ni rannu'r holl wybodaeth hon gyda'r barnwr a'r tîm amddiffyn. Gelwir hyn yn 'gyflwyno'r achos'.

Dyma gyfle i dîm yr amddiffyniad ddeall cryfder yr achos y mae'r heddlu wedi'i adeiladu yn erbyn y diffynnydd.

Mewn rhai achosion, gall y dystiolaeth berswadio'r diffynnydd i newid ei ble i 'euog' ar ôl gweld pa mor gryf yw'r achos yn ei erbyn. Byddai hynny'n golygu nad oes yn rhaid i ni gynnal y treial, fel arfer ni fyddai'n rhaid i chi roi tystiolaeth yn y llys a gallai'r barnwr symud ymlaen i'r cam dedfrydu. Os bydd hynny'n digwydd, bydd eich cyswllt yn yr heddlu yn rhoi gwybod i chi cyn gynted ag y bo modd.

### Cynnig i gael cyfarfod gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron

Bydd tîm erlyniad Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cynnig cael cyfarfod gyda chi cyn yr achos llys. Chi sydd i benderfynu a hoffech chi gael cyfarfod neu beidio.  Mae'r dioddefwr mewn achosion o dreisio neu ymosodiad rhywiol difrifol yn cael cynnig cyfarfod. Gallwch chi ddod â rhywun gyda chi i'ch cefnogi chi os yr hoffech chi.

Yn y cyfarfod, gallwch chi siarad â thîm yr erlyniad am yr hyn fydd yn digwydd nesaf, beth i'w ddisgwyl os ydych chi'n gorfod mynd i'r llys, unrhyw gwestiynau sydd gennych chi, a'r gefnogaeth sydd ar gael i'ch helpu chi i roi tystiolaeth. Gallwch ddarllen rhagor am hyn yn ein hadran 'Cymorth i roi eich tystiolaeth'.

Os hoffech chi gwrdd â thîm yr erlyniad bydd Swyddog Cyswllt Dioddefwyr o'r Uned Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol yn cysylltu â chi. Nhw fydd eich pwynt cyswllt chi wrth i'r achos fynd yn ei flaen.  Eu gwaith nhw yw ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi a'ch cynorthwyo chi i wneud y trefniadau hanfodol er mwyn i'r cyfarfod gael ei gynnal.

Os oes angen gwneud unrhyw addasiadau er mwyn eich cynorthwyo chi yn y cyfarfod hwn: e.e. trefnu bod cyfieithydd neu gyfryngydd yn bresennol, bydd y Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn trafod yr opsiynau â chi ac yn gwneud y trefniadau hanfodol.

### Rhannu deunydd ychwanegol gyda'r amddiffyniad – datgelu

Mae angen i ni hefyd rannu rhestr o'r holl ddeunydd perthnasol na fyddwn yn ei ddefnyddio gyda chyfreithwyr y diffynnydd.

Bydd hyn yn cynnwys unrhyw beth sy’n berthnasol i’r drosedd, i’r diffynnydd neu i amgylchiadau’r achos ond nad oes angen i ni ei ddefnyddio i brofi’r achos yn y llys.

Gelwir y rhestr hon yn rhestr o ddeunyddiau heb eu defnyddio. Unwaith y byddwn wedi llunio’r rhestr hon, bydd ein herlynydd yn edrych i weld a allai unrhyw ran o’r deunydd ychwanegol hwn danseilio ein hachos neu gefnogi achos yr amddiffyniad - mewn geiriau eraill, unrhyw wybodaeth a allai helpu tîm yr amddiffyniad. Gelwir hyn yn ‘brawf datgelu’.

Os bydd unrhyw ddeunydd yn bodloni’r prawf hwn, byddwn yn gwneud copïau ohono, yn tynnu allan unrhyw wybodaeth sensitif neu bersonol nad oes ei hangen ac yna’n rhannu’r wybodaeth angenrheidiol yn unig gyda’r tîm amddiffyn.

Os nad ydym yn meddwl bod y deunydd yn bodloni’r prawf datgelu, ni fyddwn yn ei rannu gyda nhw, a dim ond disgrifiad byr ohono y byddant yn ei weld ar y rhestr o ddeunydd sydd heb ei ddefnyddio.

Os ydynt yn credu y byddai’n helpu eu hachos, gall cyfreithwyr y diffynnydd ofyn am gael gweld y deunydd ychwanegol ar y rhestr nad ydym wedi’i rannu. Os nad ydym yn credu ei fod yn bodloni’r prawf datgelu, yna ni fyddwn yn ei rannu gyda nhw oni bai fod y barnwr yn penderfynu y dylent ei weld. Mae'r prosesau hyn yn bwysig iawn o ran sicrhau bod y treial yn deg i bawb sy’n gysylltiedig.

## Sut rydym yn diogelu eich preifatrwydd

Cyn i ni rannu unrhyw dystiolaeth neu ddeunydd ychwanegol gyda chyfreithwyr y diffynnydd, byddwn yn ei adolygu i dynnu allan unrhyw wybodaeth bersonol neu sensitif nad yw’n berthnasol i’r achos. Gallai gwybodaeth bersonol gynnwys pethau fel eich cyfeiriad, eich rhif ffôn ac ati. Gallai gwybodaeth sensitif gynnwys pethau fel gwybodaeth am eich iechyd.

Os yw gwybodaeth fel hyn yn berthnasol i’r achos yna byddwn yn cymryd camau i warchod eich preifatrwydd drwy wneud yn siŵr mai dim ond yr wybodaeth y mae ei gwir angen arnynt y mae’r tîm amddiffyn yn cael ei gweld.

Os oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch sut byddwn ni’n defnyddio unrhyw wybodaeth breifat, gallwch siarad â’ch cyswllt yn yr heddlu, a bydd yn fodlon ateb eich cwestiynau.

## Gofyn am ganiatâd i ddefnyddio mathau penodol o dystiolaeth

Mae angen i’n herlynydd wneud cais i’r llys am ganiatâd i ddefnyddio mathau penodol o dystiolaeth yn achos yr erlyniad.

Er enghraifft, os ydym am ddefnyddio tystiolaeth nad yw’n ymwneud yn uniongyrchol â’r achos ond sy’n dangos bod gan y diffynnydd hanes o droseddu troseddol perthnasol neu ymddygiad gwael arall (tystiolaeth o gymeriad drwg), byddai angen i ni ofyn i’r barnwr am ganiatâd i wneud hyn. Efallai y bydd cyfreithiwr y diffynnydd hefyd yn dymuno gofyn am ganiatâd i ddefnyddio mathau penodol o dystiolaeth.

Er enghraifft, mewn achosion yn ymwneud â threisio neu droseddau rhywiol eraill, mae angen i'r barnwr roi caniatâd i'r tîm amddiffyn ddefnyddio tystiolaeth am eich hanes rhywiol blaenorol.

Mae hyn yn golygu na all bargyfreithiwr yr amddiffyniad ofyn cwestiynau i chi am eich ymddygiad rhywiol heb gael caniatâd y barnwr ymlaen llaw. Dim ond mewn amgylchiadau penodol iawn lle byddai'r dystiolaeth yn berthnasol i'r achos y bydd y barnwr yn rhoi caniatâd i wneud hyn, a byddwn bob amser yn cael rhybudd am hyn cyn y treial.

Os bydd y barnwr yn rhoi caniatâd i gyfreithwyr y diffynnydd ofyn y mathau hyn o gwestiynau, byddwn yn rhoi gwybod i chi ymlaen llaw ac yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Yn ystod y treial, bydd y barnwr yn parhau i fonitro'r cwestiynau y mae bargyfreithiwr y diffynnydd yn eu gofyn. Os yw'r barnwr yn credu bod cwestiwn yn amhriodol ar unrhyw adeg, ni fydd yn caniatáu iddo gael ei ofyn. Os byddwn ni'n credu bod cwestiwn yn amhriodol, gallwn ninnau hefyd wrthwynebu a gofyn i'r barnwr ei atal rhag cael ei ofyn.

## Adolygu tystiolaeth newydd

Bydd erlynydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn adolygu unrhyw dystiolaeth newydd a ddaw ar gael wrth baratoi'r achos ar gyfer treial. Gallai hyn fod yn dystiolaeth newydd a ddarganfuwyd gan yr heddlu neu'n dystiolaeth newydd a ddarparwyd gan y tîm amddiffyn.

Os yw tystiolaeth newydd yn golygu bod angen newid y cyhuddiadau neu fod angen stopio'r achos, yna bydd erlynydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn newid y cyhuddiadau neu'n stopio'r achos. Os bydd hyn yn digwydd, bydd ein herlynydd yn cysylltu â chi i egluro'r rhesymau pam ein bod wedi gorfod gwneud y penderfyniad hwn.

Os byddwn yn penderfynu bod angen stopio'r achos, yna mae gennych hawl i ofyn i ni edrych ar ein penderfyniad eto. Gelwir hyn yn Hawl Dioddefwyr i Adolygiad – gallwch gael rhagor o wybodaeth am y broses hon yn ein hadran ar sut rydym yn gwneud penderfyniadau.

Mewn rhai amgylchiadau prin, ni fydd yn bosibl cynnal yr adolygiad hwn cyn i'r achos gael ei stopio. Er enghraifft, os yw'r treial eisoes wedi dechrau, dim ond drwy gynnig dim tystiolaeth y byddwn yn gallu stopio'r achos. Mae hyn yn golygu y bydd y diffynnydd yn cael ei ddyfarnu'n ddieuog yn ffurfiol ac ni fyddwn yn gallu ailddechrau'r achos eto yn y dyfodol.

## Gwrandawiadau i wirio cynnydd yr achos – 'Gwrandawiadau gweinyddol'

Rhwng y gwrandawiad cyntaf a dyddiad y treial, gall y barnwr bennu dyddiadau ar gyfer 'gwrandawiadau gweinyddol'. Pwrpas y gwrandawiadau hyn yw gwirio cynnydd yr achos a sicrhau bod popeth am fod yn barod ar gyfer diwrnod y treial.


Yn yr achosion mwyaf cymhleth yn Llys y Goron, gall y barnwr gynllunio 'gwrandawiad paratoi ar gyfer treial pellach'. Y rheswm am hyn yw bod yr achosion hyn yn gymhleth, yn aml gyda llawer o dystiolaeth i fynd drwyddi, felly gall fod yn ddefnyddiol cael cyfle arall i adolygu'r amserlen ar gyfer y treial er mwyn helpu i sicrhau ei fod yn gallu mynd ymlaen ar amser.

# Cymorth i roi eich tystiolaeth:

## ‘Mesurau arbennig’

### Cynnwys:

- Pwy sy’n gallu cael gafael ar y cymorth hwn
- Pa gymorth sydd ar gael
- Sut gallwch chi gael gafael ar y cymorth hwn



## Cymorth i roi eich tystiolaeth – 'mesurau arbennig'

Pan fydd achos yn mynd i dreial, gofynnir i chi roi tystiolaeth fel arfer. Mae hyn yn golygu disgrifio'r hyn a ddigwyddodd i chi yn eich geiriau eich hun ac ateb cwestiynau amdano gan fargyfreithiwr yr erlyniad a chan fargyfreithiwr yr amddiffyniad.

Gall hyn fod yn frawychus ond mae pethau y gallwn ofyn amdanynt i'ch helpu i deimlo'n fwy cyfforddus pan fyddwch yn rhoi eich tystiolaeth – 'mesurau arbennig' yw'r enw ar y rhain.

Gellir eu rhoi ar waith ar gyfer sut rydych yn rhoi eich tystiolaeth yn y treial neu weithiau gallant olygu eich bod yn rhoi eich holl dystiolaeth cyn i'r treial ddigwydd. Byddwn yn gwneud cais am y mesurau hyn ar eich rhan a bydd y barnwr yn penderfynu a ddylid eu caniatáu ai peidio.

Mae mesurau arbennig ar gael i'ch cefnogi os bydd eu hangen arnoch ond does dim rhaid i chi ofyn amdanynt os nad ydych chi eisiau gwneud hynny.

### Pwy sy'n gallu cael gafael ar y cymorth hwn

Gall dioddefwyr a thystion sy'n agored i niwed ac sy'n cael eu bygwth ofyn am fesurau arbennig.

Mae dioddefwyr trais rhywiol neu ymosodiad rhywiol difrifol yn cael eu hystyried dan y gyfraith fel tystion sy'n cael eu bygwth, felly mae hyn yn golygu bod gennych hawl awtomatig i ofyn am fesurau arbennig, os ydych am eu cael.

Dim ond i ddioddefwyr a thystion agored i niwed y mae rhai mesurau arbennig ar gael ar hyn o bryd.

Byddwch yn cael eich ystyried yn dyst agored i niwed os ydych chi dan 18 oed. Byddwch hefyd yn cael eich ystyried yn dyst agored i niwed os oes gennych anabledd neu gyflwr corfforol neu feddyliol a fyddai'n effeithio ar eich gallu i roi eich tystiolaeth orau yn y llys. Dylech drafod hyn â'ch cyswllt yn yr heddlu os ydych chi'n meddwl bod hyn yn berthnasol i chi.

### Pa gymorth sydd ar gael

Mae dau fesur arbennig a all eich helpu i roi rhywfaint neu'r cyfan o'ch tystiolaeth cyn y treial.

1. Tystiolaeth gyntaf wedi'i recordio ar fideo.
   'Tystiolaeth gyntaf' yw eich disgrifiad chi o'r hyn a ddigwyddodd i chi. Mae'r mesur arbennig hwn yn caniatáu i ni recordio eich tystiolaeth ar fideo cyn y treial a'i chwarae'n ôl yn ystod y treial fel nad oes angen i chi ailadrodd holl fanylion y drosedd yn y llys. Bydd bargyfreithiwr yr erlyniad yn dal i ofyn cwestiynau ychwanegol i chi er mwyn egluro unrhyw faterion a byddwch yn cael eich croesholi (eich holi am eich tystiolaeth) gan fargyfreithiwr yr amddiffyniad yn ystod y treial. Weithiau, efallai y byddwch yn clywed pobl yn galw hyn yn 'VRI' sef '*Video Recorded Interview*' neu'n gyfweliad 'ABE' sef '*Achieving Best Evidence*'.

2. Croesholi neu ail-holi drwy fideo wedi'i recordio.

Mae ‘croesholi’ yn golygu pan fydd cyfreithwyr y diffynnydd yn gofyn cwestiynau i chi am yr hyn a ddigwyddodd ac ‘ail-holi’ yw’r hyn a alwn unrhyw gwestiynau dilynol terfynol y mae bargyfreithiwr yr erlyniad yn eu gofyn i chi. Mae’r mesur arbennig hwn yn caniatáu i ni gofnodi eich croesholi a’ch ail-holi cyn y treial. Ni fyddai’n rhaid i chi fynychu’r treial o gwbl a bydd eich tystiolaeth gyntaf a’ch croesholi wedi’u recordio ar fideo yn cael eu chwarae gerbron y rheithgor a’r llys yn lle hynny. Gallwch ddarllen mwy am groesholi ac ail-holi yn yr adran ‘Beth fydd yn cael ei ofyn i mi?’ ar dudalen 44.

Nid yw’r mesur arbennig hwn ar gael ar gyfer holl ddioddefwyr trais ac ymosodiad rhywiol difrifol ar hyn o bryd. Bydd eich cyswllt yn yr heddlu yn rhoi gwybod i chi os yw ar gael yn eich llys. Rydym yn disgwyl y bydd ar gael ym mhob Llys y Goron erbyn hydref 2022.

a.

Gallwch fanteisio arno mewn unrhyw Lys y Goron os ydych yn cael eich ystyried yn dyst agored i niwed.

Weithiau, efallai y byddwch yn clywed pobl yn galw’r mesur arbennig hwn yn ‘adran 28’, oherwydd dyna’r adran o’r gyfraith ar roi tystiolaeth sy’n egluro hynny.

Mae chwe mesur arbennig a all eich helpu i roi tystiolaeth yn ystod y treial. Mae’r pedwar cyntaf ar gael i dystion agored i niwed a thystion sy’n cael eu bygwth, sy’n cynnwys pob dioddefwr trais ac ymosodiad rhywiol difrifol, a dim ond i ddioddefwyr a thystion sy’n agored i niwed y mae’r ddau olaf ar gael.

1. Sgriniau. Fel arfer, llenni neu baneli yw sgriniau y mae’r llys yn eu gosod rhwng y blwch tystion a’r diffynnydd pan fyddwch yn rhoi tystiolaeth. Mae hyn yn golygu na fyddwch yn gweld y diffynnydd pan fyddwch yn rhoi eich tystiolaeth na phan fyddwch yn cael eich croesholi. Gall y barnwr, y rheithgor a’r bargyfreithwyr eich gweld chi a gallwch chi eu gweld nhw.

2. Tystiolaeth drwy gyswllt byw. Fel arfer, cyswllt teledu yw hwn o ystafell breifat ym mhrif adeilad y llys ond weithiau gallwch roi tystiolaeth o leoliad arall fel llys gwahanol yn nes at eich cartref, ystafell bwrpasol mewn gorsaf heddlu neu Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC).

   Os byddwch yn rhoi tystiolaeth drwy gyswllt byw, byddwch yn gallu gweld pwy bynnag sy’n gofyn y cwestiynau i chi (y bargyfreithwyr neu’r barnwr) ond fel arfer, ni fyddwch yn gallu gweld neb arall yn ystafell y llys. Fodd bynnag, bydd pawb yn ystafell y llys yn gallu eich gweld chi, gan gynnwys y diffynnydd. Gallwn wneud cais am sgriniau ynghyd â’r cyswllt byw i atal y diffynnydd rhag eich gweld, os byddai hynny o gymorth i chi.

3. Rhoi tystiolaeth yn breifat. Mae hyn yn golygu bod ystafell y llys yn cael ei chlirio o bawb nad oes angen iddynt fod yno yn ôl y gyfraith at ddibenion y treial. Os yw eich achos yn debygol o ddenu sylw’r cyfryngau, caniateir i un aelod o’r wasg aros yn y llys ond, fel gyda phob cam o’r achos, rydych chi’n cael bod yn gwbl ddienw mewn unrhyw gyhoeddiadau, felly ni chaniateir i’r cyfryngau gyhoeddi eich enw.

4. Y barnwr a'r bargyfreithwyr yn tynnu wigiau a gynau. Defnyddir hwn fel arfer ar gyfer plant sy'n ddioddefwyr a thystion. Nod hyn yw eu helpu i deimlo'n fwy cyfforddus drwy wneud i'r llys ymddangos yn llai ffurfiol.

Dyma ddau fesur arbennig sydd ond ar gael i ddioddefwyr a thystion agored i niwed ar hyn o bryd:

5. Cyfryngwyr. Mae cyfryngwyr yn bobl sy'n gallu eich cefnogi os oes angen help arnoch i ddeall ac ateb y cwestiynau sy'n cael eu gofyn i chi. Bydd cyfryngwr yn gwneud yn siŵr bod y cwestiynau'n cael eu gofyn mewn ffordd sy'n golygu eich bod yn gallu eu deall yn rhwydd. Byddant hefyd yn eich helpu i rannu eich atebion yn glir gyda'r llys.

6. Cymhorthion Cyfathrebu. Gall cymhorthion cyfathrebu gynnwys pethau fel byrddau cymorth gweledol, meddalwedd a reolir â'r llygaid, doliau neu luniadau amlinell o'r corff. Gallwch ddefnyddio'r rhain os oes gennych anabledd sy'n golygu bod angen cymorth arnoch i'ch helpu i ddeall neu ateb cwestiynau.

## Sut gallwch chi gael gafael ar y cymorth hwn

Bydd yr heddlu'n siarad â chi am ba fesurau arbennig fyddai'n eich helpu i roi eich tystiolaeth. Gallwch hefyd ofyn iddynt am y peth os hoffech chi ei drafod ar unrhyw adeg.

Byddant yn rhoi gwybod i ni pa fesurau arbennig rydych wedi'u dewis a pham a byddwn yn gwneud cais i'r llys am ganiatâd i'w defnyddio. Byddwn yn esbonio i'r barnwr pam rydym yn meddwl y byddant yn eich helpu i roi eich tystiolaeth orau.

Yna bydd y barnwr yn penderfynu pa fesurau arbennig i'w cymeradwyo. Bydd yr heddlu'n rhoi gwybod i chi beth mae'r barnwr wedi'i benderfynu.

# Beth mae angen i chi ei wneud cyn y treial

## Cynnwys:

- Gwylio eich tystiolaeth fideo wedi'i recordio
- Ymweld â'r llys
- Trefnu teithio a threuliau



## Beth mae angen i chi ei wneud cyn y treial

Mae gennych hawl dan y Cod Dioddefwyr i gael gwybodaeth am y treial, proses y treial a'ch rôl chi fel tyst.

Bydd yr heddlu'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am hynt yr achos a gallwch ofyn iddynt am yr wybodaeth ddiweddaraf ar unrhyw adeg. Byddant yn rhoi gwybod i chi pa ddyddiad y disgwylir i'r treial ddechrau a pha bryd y mae'n debygol o ddod i ben. Byddant hefyd yn rhoi gwybod i chi a fydd angen i chi roi tystiolaeth yn y llys a pha bryd y bydd angen i chi gyrraedd.

Bydd y llys yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y treial yn dechrau'n brydlon, ond weithiau gellir gohirio dechrau eich treial – er enghraifft os bydd treial arall yn rhedeg yn hwyr mewn ystafell llys. Bydd yr heddlu'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynghylch beth sy'n digwydd.

### Gwylio eich tystiolaeth fideo wedi'i recordio

Cyn y treial, bydd yr heddlu'n cytuno ar amser gyda chi i chi wylio eich tystiolaeth fideo wedi'i recordio. Mae hyn er mwyn rhoi cyfle i chi roi proc i'ch cof cyn i'r treial ddechrau. Os oes gennych chi Gynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol, fe all ddod gyda chi os hoffech chi hynny. Gallwch hefyd ddod â ffrind neu aelod o'r teulu gyda chi cyn belled na fyddant yn dyst yn y treial.

### Ymweld â'r llys

Gall y Gwasanaeth Tystion drefnu i chi ymweld â'r llys cyn y treial. Yn ystod yr ymweliad, bydd tîm y Gwasanaeth Tystion yn trafod beth fydd yn digwydd ar ddiwrnod y treial ac yn dangos i chi sut mae'r ystafelloedd llys yn edrych i'ch helpu i deimlo'n fwy cyfforddus ar y diwrnod.

Os ydych chi'n nerfus ynghylch gweld y diffynnydd neu ei ffrindiau neu ei deulu yn y llys ar y diwrnod, rhowch wybod i'r heddlu neu'r Gwasanaeth Tystion. Efallai y bydd yn gallu trefnu i chi fynd i mewn i adeilad y llys drwy fynedfa ochr breifat neu drefnu eich amseroedd cyrraedd fel eich bod chi'n gallu osgoi'r diffynnydd.

Ar ôl i chi ymweld â'r llys, efallai y byddwch am newid unrhyw fesurau arbennig sydd wedi cael eu rhoi ar waith ar eich cyfer.  Mae hynny'n iawn – mae hyn yn beth cyffredin iawn. Bydd angen i chi roi gwybod i swyddog yr heddlu pa newidiadau yr hoffech eu gwneud cyn gynted â phosibl. Yna byddwn yn gwneud cais i'r barnwr newid eich trefniadau mesurau arbennig.

### Trefnu teithio a threuliau

Rhowch wybod i'r heddlu os oes angen i chi ddefnyddio tacsi, trên neu awyren i fynd i'r llys neu os ydych chi'n byw mor bell i ffwrdd fel eich bod angen llety dros nos i wneud yn siŵr y gallwch gyrraedd y llys mewn pryd. Bydd yr heddlu'n rhoi'r wybodaeth hon i ni a bydd ein tîm yn trefnu eich teithiau a/neu lety i chi.


Ar gyfer y rhan fwyaf o gostau teithio is eraill, mae fel arfer yn haws defnyddio ffurflen treuliau tystion y byddwn yn ei rhoi i chi yn y llys. Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon i hawlio costau teithio

yn ôl yn ogystal â gofal plant a cholli enillion hyd at symiau penodol. Mae ein canllawiau ar gael yn **cps.gov.uk/legal-guidance/witness-expenses-and-allowances**. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu bryderon am gostau teithio neu dreuliau, rhowch wybod i'ch cyswllt yn yr heddlu.

# Y treial

## Cynnwys:

- Faint o amser fydd hi'n ei gymryd i'r treial ddigwydd ar ôl i'r diffynnydd gael ei gyhuddo?
- Diwrnod cyntaf y treial
- Pwy 'di pwy yn ystafell y llys
- Rôl bargyfreithiwr yr amddiffyniad
- Proses y treial
- Eich tystiolaeth
- Beth fydd yn cael ei ofyn i chi
- Tystion eraill a thystiolaeth y diffynnydd



# Y treial

## Faint o amser fydd hi'n ei gymryd i'r treial ddigwydd ar ôl i'r diffynnydd gael ei gyhuddo?

Mae pob achos yn wahanol ac nid oes un ateb i'r cwestiwn hwn. Cyn gynted ag y penderfynir cynnal treial, bydd y llys yn ei restru cyn gynted ag y bo modd. Efallai y bydd rhai achosion yn fwy syml, tra bydd gan eraill lawer o dystiolaeth y mae angen ei pharatoi cyn y treial.

Yn anffodus, mae achosion wedi ôl-gronni yn system y llysoedd ar hyn o bryd. Mae'r llysoedd yn gwneud eu gorau i weithio drwy hyn cyn gynted ag y bo modd, ond gall olygu y gall y treial yn eich achos chi gymryd peth amser i ddigwydd.

Mae gennych hawl dan y Cod Dioddefwyr i gael gwybodaeth am y treial a bydd eich cyswllt yn yr heddlu yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr hyn sy'n digwydd.

Rydym yn gwybod pa mor anodd y gall fod wrth i chi aros i'r treial gael ei gynnal. Mae cymorth ar gael i chi drwy gydol y broses hon a gallwch benderfynu gofyn am gymorth ar unrhyw adeg. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar dudalen 10.

## Diwrnod cyntaf y treial

Os ydych chi'n cael cymorth gan Gynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol, gall ddod gyda chi ar ddiwrnod y treial.

Pan fyddwch yn cyrraedd y llys, bydd y swyddogion diogelwch yn eich tywys i ystafell aros y Gwasanaeth Tystion. Os ydych chi wedi trefnu gyda'r Gwasanaeth Tystion i ddod i mewn i'r llys drwy fynedfa ochr breifat, yna dylech ddilyn y cyfarwyddiadau y maent wedi'u rhoi i chi.

Gwirfoddolwyr Cyngor Ar Bopeth sy'n rhedeg y Gwasanaeth Tystion. Gall y gwirfoddolwyr esbonio beth fydd yn digwydd yn ystod y dydd a byddant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am hynt y treial. Lle bo'n bosibl, bydd y Gwasanaeth Tystion yn ceisio darparu mannau aros ar wahân ar gyfer tystion yr erlyniad a thystion yr amddiffyniad. Siaradwch â'ch cyswllt yn yr heddlu neu'r Gwasanaeth Tystion os ydych chi'n poeni am weld y diffynnydd neu unrhyw un arall yn y llys. Mae rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth Tystion ar gael yn **citizensadvice.org.uk/witness**.

Cyn i'r treial ddechrau, bydd rhywun o dîm yr erlyniad yn cyflwyno'i hun i chi ac yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am y broses a beth i'w ddisgwyl. Gallai hyn fod yn weithiwr paragyfreithiol o Wasanaeth Erlyn y Goron, erlynydd Gwasanaeth Erlyn y Goron neu fargyfreithiwr yr erlyniad. Fel arfer, bydd yr erlynydd yn y treial yn fargyfreithiwr annibynnol a fydd yn cyflwyno eich achos ar ran Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Bydd hefyd yn egluro beth fydd yn digwydd yn y llys ac yn cadarnhau pa fesurau arbennig sydd wedi cael eu rhoi ar waith ar eich cyfer. Mae ein hadran ar fesurau arbennig ar dudalen 35.

Bydd hefyd yn siarad â chi am natur gyffredinol achos yr amddiffyniad. Mae hyn yn golygu beth mae'r amddiffyniad yn debygol o'i ddweud am yr hyn rydym ni wedi'i ddweud am y digwyddiad, er enghraifft, a yw'r diffynnydd yn dweud bod y cyswllt rhywiol yn gydsyniol neu nad oedd wedi digwydd o gwbl.

## Pwy 'di pwy yn ystafell y llys

Yn Llys y Goron, bydd y dystiolaeth yn cael ei chlywed gan farnwr a rheithgor. Mae'r rheithgor yn cynnwys 12 aelod o'r cyhoedd a ddewisir ar hap o'r rhestr etholiadol. Yn Llys y Goron, y rheithgor sy'n penderfynu a yw'r diffynnydd yn 'euog' neu'n 'ddieuog'. Os bydd y rheithgor yn canfod y diffynnydd yn 'euog', bydd y barnwr wedyn yn penderfynu pa ddedfryd y bydd y diffynnydd yn ei derbyn.
Os ydych chi'n rhoi tystiolaeth yn y llys, byddwch yn aros yn yr ystafell aros nes i chi gael eich galw i mewn. Ni fyddwch yn gallu gwylio'r treial tan ar ôl i chi roi eich tystiolaeth.

Os nad ydych chi'n rhoi tystiolaeth yn y llys, cewch eistedd yn yr oriel gyhoeddus i wylio'r treial.

Mae'n debygol y bydd ffrindiau neu deulu'r diffynnydd yn eistedd yn yr oriel gyhoeddus hefyd. Os nad ydych chi eisiau eistedd yn yr un lle â nhw na chael eich gweld ganddynt, efallai y bydd modd i chi drefnu i wylio'r treial o rywle arall yn ystafell y llys gyda chaniatâd y barnwr. Os felly, gallwch roi gwybod i'r Gwasanaeth Tystion a byddant yn eich helpu i wneud cais am hyn. Mae'r oriel gyhoeddus ar agor i unrhyw un ond mae'n anghyfreithlon i unrhyw un yn ystafell y llys ddefnyddio eich enw – mae hyn yn cynnwys ei rannu ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae gwasanaeth y llysoedd (GLlTEM) wedi llunio esboniad byr o pwy 'di pwy yn Llys y Goron yn **gov.uk/guidance/hmcts-whos-who-crown-court**.

## Rôl bargyfreithiwr yr amddiffyniad

Mae rôl bargyfreithiwr yr amddiffyniad yn wahanol i rôl bargyfreithiwr yr erlyniad.

Rôl bargyfreithiwr yr erlyniad yw profi, ar sail y dystiolaeth, fod y diffynnydd yn euog. Mewn cymhariaeth, nid oes angen i fargyfreithiwr yr amddiffyniad brofi bod y diffynnydd yn ddieuog. Ei rôl yw tynnu sylw at unrhyw broblemau neu dyllau yn achos yr erlyniad i ddangos i'r rheithgor na allant fod yn sicr bod y diffynnydd yn euog.

## Proses y treial

Bydd bargyfreithiwr yr erlyniad yn agor yr achos drwy nodi'r cyhuddiadau yn erbyn y diffynnydd a ffeithiau cyffredinol yr achos.

Weithiau, efallai y bydd angen i'r barnwr a'r bargyfreithwyr drafod rhai pwyntiau cyfreithiol cyn i'r treial ddechrau. Mae hyn yn beth arferol, felly peidiwch â phoeni os oes rhaid i chi aros ychydig yn hwy na'r disgwyl i'r treial ddechrau. Bydd y Gwasanaeth Tystion yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynghylch beth sy'n digwydd.

## Eich tystiolaeth

Mae’n debyg mai chi fydd y prif dyst felly mae’n debyg y gofynnir i chi roi eich tystiolaeth yn gyntaf.

Bydd sut y byddwch yn rhoi eich tystiolaeth yn dibynnu ar ba fesurau arbennig a roddwyd i chi gan y llys:

- Os ydych chi’n rhoi tystiolaeth y tu ôl i sgrin, bydd yn barod i chi cyn i chi ddod i’r llys.
- Os ydych chi’n rhoi tystiolaeth o gyswllt teledu yn adeilad y llys, bydd tywysydd y llys yn dod â chi i’r ystafell pan fydd hi’n amser i chi roi eich tystiolaeth.
- Os ydych chi’n rhoi tystiolaeth o leoliad y tu allan i’r llys dros gyswllt fideo, bydd clerc y llys yn eich ‘gwahodd’ yn ddigidol i ystafell y llys ar yr adeg briodol. Bydd rhywun o’r llys yno i’ch helpu gyda hyn.
- Os oes angen cyfieithydd arnoch, byddwn wedi trefnu i un fod yno i chi.

Os cafodd eich prif dystiolaeth ei recordio ar fideo, bydd hynny’n cael ei chwarae i’r llys yn gyntaf fel nad oes rhaid i chi fynd drwy’r digwyddiad cyfan yn llawn eto.

Efallai y bydd bargyfreithiwr Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gofyn mwy o gwestiynau i chi i egluro’r hyn rydych wedi’i ddweud ac wedyn bydd bargyfreithiwr yr amddiffyniad yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i chi hefyd – gelwir hyn yn groesholi.

Yna, os bydd angen iddo wneud hynny, bydd bargyfreithiwr Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gofyn rhai cwestiynau terfynol i chi – gelwir hyn yn ail-holi.

Gwrandewch ar bob cwestiwn yn ofalus. Gallwch ofyn am glywed y cwestiwn eto, ac os nad ydych yn deall cwestiwn, gallwch ofyn i’r bargyfreithiwr ei aralleirio neu ei egluro cyn i chi ateb.

Gall rhai o’r cwestiynau fod yn anodd eu hateb ond canolbwyntiwch ar ddweud y gwir. Os nad ydych chi’n gwybod yr ateb i gwestiwn neu os nad ydych chi’n cofio, mae’n iawn i chi ddweud hynny.

Gallwch ofyn am seibiant unrhyw bryd.

## Beth fydd yn cael ei ofyn i chi

Rôl tîm yr amddiffyniad yw cyflwyno fersiwn y diffynnydd o’r digwyddiadau a herio’r hyn rydych chi’n ddweud a ddigwyddodd.  Gallai hyn fod drwy ddweud eich bod yn dweud celwydd neu eich bod yn camgymryd.

Gall rhai o’r cwestiynau fod yn anodd ond mae’n bwysig eich bod yn canolbwyntio ar ddweud y gwir. Dylech wrando’n ofalus ar yr hyn y mae bargyfreithiwr yr amddiffyniad yn ei ddweud ac ateb ei gwestiynau’n glir. Os ydych chi’n anghytuno â rhywbeth mae’n ei ddweud, dylech ddweud hynny.

Os yw'n berthnasol i'r achos, efallai y bydd bargyfreithiwr yr erlyniad neu'r amddiffyniad yn gofyn i chi am unrhyw gyswllt a gawsoch gyda'r diffynnydd cyn a/neu ar ôl i'r drosedd ddigwydd. Gall hyn gynnwys negeseuon testun neu negeseuon e-bost.

Mewn rhai achosion, efallai y bydd y barnwr wedi rhoi caniatâd i dîm yr amddiffyniad ofyn cwestiynau i chi am eich hanes rhywiol blaenorol. Dim ond mewn amgylchiadau penodol iawn lle byddai'r dystiolaeth yn berthnasol i'r achos y bydd y barnwr yn rhoi caniatâd i wneud hyn.

Os yw'r barnwr wedi rhoi caniatâd i dîm yr amddiffyniad ofyn y mathau hynny o gwestiynau, bydd erlynydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn rhoi gwybod i chi cyn y treial.

Yn ystod y treial, bydd y barnwr yn gwrando'n ofalus ar yr holl gwestiynau ac os bydd yn penderfynu bod cwestiwn yn amhriodol, ni fydd yn gadael iddo gael ei ofyn. Os byddwn yn credu bod cwestiwn yn amhriodol, gallwn ni hefyd wrthwynebu a gofyn i'r barnwr ei atal rhag cael ei ofyn.

Os byddwch angen cymryd saib ar unrhyw adeg, gallwch ofyn i'r barnwr. Mae hyn yn iawn a bydd y llys yn deall bod angen i chi gael ychydig funudau i chi'ch hun.

## Tystion eraill a thystiolaeth y diffynnydd

Ar ôl i chi roi eich tystiolaeth, byddwn wedyn yn galw cyfres o dystion i roi tystiolaeth.

Gallai'r rhain gynnwys:

- Llygad-dystion a welodd rywbeth yn digwydd.
- Swyddogion yr heddlu sy'n gallu disgrifio'r dystiolaeth maent wedi dod o hyd iddi.
- Tystion arbenigol a fydd yn rhoi tystiolaeth yn ymwneud â'u maes arbenigedd. Er enghraifft, gallai meddyg roi tystiolaeth am unrhyw anafiadau a gawsoch, neu gallai arbenigwr tocsicoleg roi tystiolaeth am alcohol neu gyffuriau a oedd yn eich llif gwaed.

Bydd bargyfreithiwr yr erlyniad yn gofyn cwestiynau i'r tystion am y dystiolaeth sy'n cefnogi'r achos. Yna bydd bargyfreithiwr yr amddiffyniad yn cael cyfle i ofyn cwestiynau iddynt hefyd – gelwir hyn yn groesholi.

Unwaith y bydd bargyfreithiwr yr erlyniad wedi galw ei holl dystion, bydd y treial yn newid drosodd a bydd bargyfreithiwr yr amddiffyniad yn galw ei dystion. Bydd erlynydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i bob un o dystion yr amddiffyniad drwy eu croesholi.

Nid oes rhaid i'r diffynnydd roi tystiolaeth ac mae'n eithaf cyffredin i ddiffynnydd ddewis peidio â rhoi tystiolaeth yn y llys. Os bydd diffynnydd yn dewis peidio â rhoi tystiolaeth, ni allwn ei groesholi.

Fodd bynnag, bydd trawsgrifiad o'r cyfweliad a roddwyd gan y diffynnydd yng ngorsaf yr heddlu fel arfer yn cael ei ddarllen i'r llys fel rhan o achos yr erlyniad. Gall y rheithgor wedyn ystyried yr hyn a ddywedodd y diffynnydd pan ofynnwyd iddo am y digwyddiad.

Unwaith y bydd yr holl dystion wedi rhoi eu tystiolaeth ac wedi cael eu croesholi, bydd bargyfreithiwr Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gwneud araith gloi yn crynhoi holl bwyntiau allweddol ein tystiolaeth. Yna bydd bargyfreithiwr yr amddiffyniad yn gwneud araith gloi yn nodi lle mae'n credu bod diffygion yn achos yr erlyniad.

Bydd y barnwr yn crynhoi prif bwyntiau'r dystiolaeth ac yn rhoi 'cyfarwyddiadau' i'r rheithgor ynghylch y gyfraith. Mae hyn yn golygu y bydd yn esbonio pethau fel yr hyn y mae'n rhaid i'r erlyniad fod wedi'i brofi er mwyn i'r rheithgor gael y diffynnydd yn euog.

Bydd y rheithgor yn mynd i ystafell breifat i drafod y dystiolaeth a phenderfynu ar eu rheithfarn.

# Y dyfarniad a'r ddedfryd

## Cynnwys:

- Os ceir diffynnydd yn 'ddieuog'
- Os ceir diffynnydd yn 'euog'
- Os bydd rheithgor yn methu â dod i ddyfarniad



## Y dyfarniad a’r ddedfryd

Mae gennych hawl dan y Cod Dioddefwyr i gael gwybodaeth am ganlyniad yr achos. Gallwch ddewis mynd i’r llys i glywed y rheithfarn. Fodd bynnag, nid yw byth yn glir pryd y bydd rheithgor yn dod i benderfyniad – gallai gymryd oriau neu sawl diwrnod.

Gallwch hefyd ddewis bod yn bresennol yn y gwrandawiad dedfrydu. Os byddwch yn dewis peidio â dod, bydd eich cyswllt yn yr heddlu yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr hyn sy’n digwydd.

I ganfod y diffynnydd yn ‘euog’, rhaid i’r rheithgor fod yn siŵr bod y diffynnydd yn euog. Weithiau byddwch yn clywed hyn yn cael ei ddisgrifio fel ‘yn siŵr y tu hwnt i amheuaeth resymol’ neu yn ‘fodlon fel eich bod yn siŵr’.

Os nad yw’r rheithgor yn siŵr a yw’r diffynnydd yn euog yna rhaid iddynt ei gael yn ‘ddieuog’.

Mae’r barnwr yn gofyn i’r rheithgor ddod i ddyfarniad unfrydol – mae hynny’n golygu y dylent i gyd gytuno a yw’r diffynnydd yn ‘euog’ neu’n ‘ddieuog’. Os na allant wneud hynny ar ôl ystyried a thrafod y dystiolaeth yn ofalus, gall y barnwr ganiatáu iddynt ddod i benderfyniad mwyafrif o 10 o bobl o leiaf.

### Os ceir diffynnydd yn ‘ddieuog’

Os ceir diffynnydd yn ‘Ddieuog’, mae’r achos wedi dod i ben a chaiff adael y llys. Os yw wedi cael ei gadw yn y carchar yn ystod y treial, bydd yn cael ei ryddhau ar unwaith.

Os ceir y diffynnydd yn ddieuog, nid yw hynny’n golygu nad oeddech wedi’ch credu neu fod pobl yn meddwl eich bod yn dweud celwydd.  Mae’n golygu’n syml na allai’r rheithgor fod yn ‘fodlon fel eu bod yn siŵr’ bod y diffynnydd yn euog.

### Os ceir diffynnydd yn ‘euog’

Os ceir y diffynnydd yn ‘euog’, gall y barnwr naill ai ddedfrydu’r diffynnydd ar unwaith neu gall ohirio’r gwrandawiad dedfrydu i ofyn am ragor o wybodaeth i’w helpu i benderfynu beth ddylai’r ddedfryd fod.

Gall hyn gynnwys adroddiad ‘cyn-dedfrydu’, a ysgrifennir gan y gwasanaeth prawf, sy’n darparu asesiad annibynnol o’r troseddwr a’r risgiau a berir ganddo.

Byddwn hefyd yn rhoi eich ‘Datganiad Personol Dioddefwr’ i’r llys os ydych wedi ysgrifennu un. Bydd yr heddlu’n gofyn i chi a hoffech chi ysgrifennu un yn ystod yr ymchwiliad – dyma eich cyfle chi i egluro sut mae’r drosedd wedi effeithio arnoch chi. Os hoffech ddarparu datganiad personol dioddefwr wedi’i ddiweddaru, dylech siarad â’ch cyswllt yn yr heddlu, a fydd yn trefnu i chi wneud hyn.

Os hoffech ddarllen eich ‘Datganiad Personol Dioddefwr’ yn uchel i’r llys, yna gallwn wneud cais i’r llys i chi gael gwneud hyn. Fel arall, bydd yr erlynydd yn ei ddarllen i’r llys ar eich rhan.

Os hoffech ddarllen eich ‘Datganiad Personol Dioddefwr’ i’r llys eich hun, mae gennych hawl i gael mesurau arbennig i wneud hynny a byddwn yn talu am eich treuliau fel o’r blaen. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am fesurau arbennig ar dudalen 35.

Yna bydd y barnwr yn defnyddio’r wybodaeth honno i benderfynu pa ddedfryd y bydd y diffynnydd yn ei derbyn yn unol â’r canllawiau dedfrydu ar gyfer y drosedd y mae wedi’i gael yn euog ohoni.

Pennir canllawiau dedfrydu gan y Cyngor Dedfrydu yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr. Gallwch ddarllen rhagor am ddedfrydu ar eu gwefan: **sentencingcouncil.org.uk/sentencing-and-the-council**.

Os yw’r diffynnydd wedi’i gadw yn y carchar yn disgwyl am y treial, bydd fel arfer yn cael ei anfon yn ôl i’r carchar i aros am y ddedfryd os yw’n debygol y bydd yn cael dedfryd o garchar gan y barnwr.  Fel arfer, bydd unrhyw amser y mae’r diffynnydd eisoes wedi’i dreulio yn y carchar yn aros am y treial yn cyfrif fel rhan o’i ddedfryd.

Os byddwch yn penderfynu peidio â dod i’r gwrandawiad dedfrydu, yna bydd yr heddlu’n rhoi gwybod i chi beth ddigwyddodd ar ôl iddo orffen.

## Os bydd y rheithgor yn methu â dod i ddyfarniad

Os na all y rheithgor ddod i benderfyniad (naill ai ‘euog’ neu ‘ddieuog’), yna rhaid i erlynydd Gwasanaeth Erlyn y Goron benderfynu a ddylid cynnal treial arall ai peidio. Byddai’n rhaid i’r treial hwn ddechrau o’r newydd, gan wrando ar yr holl dystiolaeth eto, gyda rheithgor newydd sbon.

I wneud y penderfyniad hwnnw, bydd yn ystyried ein prawf dau gam eto:

- A oes digon o dystiolaeth o hyd i ddarparu siawns realistig o gael euogfarn – a oes unrhyw beth wedi newid yn ystod y treial cyntaf ac a yw’r tystion yn dal yn fodlon ac ar gael i roi tystiolaeth eto?
- A yw’r treial yn dal er budd y cyhoedd – er enghraifft, a fyddai oedi hyd nes y byddai treial newydd yn newid unrhyw beth ac a yw’r oedi hwnnw’n gymesur â’r ddedfryd y byddai’r diffynnydd yn debygol o’i chael?

Bydd yr erlynydd hefyd yn ystyried eich barn chi fel dioddefwr.

Os penderfynwn fwrw ymlaen â threial newydd, bydd y llys yn pennu dyddiad ar gyfer cychwyn y treial.

Os penderfynwn beidio â bwrw ymlaen â threial arall, rhaid i ni wneud penderfyniad ffurfiol i beidio â chynnig tystiolaeth. Mae hynny'n golygu bod yr achos yn cael ei stopio, bydd y diffynnydd yn cael ei ryddhau ac yn cael ei ddyfarnu'n ddieuog o'r trosedd(au) yn ffurfiol.

## Pa gymorth sydd ar gael ar ôl i'r treial ddod i ben?

Mae llawer o wasanaethau cymorth yn parhau i ddarparu cymorth ar ôl i dreial ddod i ben. Gall mynd drwy dreial fod yn anodd ac mae'n naturiol bod angen mwy o amser a chymorth arnoch i brosesu'r hyn sydd wedi digwydd.

Mae gan Gymorth i Ddioddefwyr dimau ledled Cymru a Lloegr sy'n gallu cynnig cymorth lleol ac mae eu llinell gymorth genedlaethol ar agor 24/7. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn victimsupport.org.uk/help.

# Ar ôl y treial:

## Apeliadau

### Cynnwys:

- Os yw’r diffynnydd yn dymuno apelio yn erbyn ei euogfarn neu ei ddedfryd
- Apelio yn erbyn dedfryd sy’n rhy fyr (dedfrydau rhy drugarog)



## Ar ôl y treial – apeliadau

Mae gennych hawl dan y Cod Dioddefwyr i gael gwybodaeth am unrhyw apeliadau yn yr achos. Bydd eich cyswllt yn yr heddlu yn rhoi gwybod i chi os oes unrhyw apeliadau.

Os cafwyd y diffynnydd yn 'ddieuog', ni allwn apelio yn erbyn y dyfarniad. Y rheswm am hyn yw nad yw'r gyfraith yn rhoi'r hawl i ni apelio yn erbyn penderfyniad y rheithgor.

Mewn amgylchiadau prin iawn, efallai y bydd modd i ni ofyn i'r llys ddileu'r rhyddfarn a gofyn am ail dreial os bydd yr heddlu'n dod o hyd i dystiolaeth 'newydd a chryf' nad oedd ar gael adeg y treial gwreiddiol. Fodd bynnag, mae'r achosion hyn yn brin iawn gan fod safon y dystiolaeth sydd ei hangen i orchymyn ail dreial yn uchel iawn.

### Os yw'r diffynnydd yn dymuno apelio yn erbyn ei euogfarn neu ei ddedfryd

Os ceir y diffynnydd yn 'euog', gall apelio yn erbyn ei euogfarn – mae hyn yn golygu ei fod yn gofyn iddo gael ei wrthdroi am nad yw'n credu y dylai fod wedi'i gael yn 'euog'.

Gall hefyd apelio yn erbyn difrifoldeb ei ddedfryd. Mae hyn yn golygu nad yw'n herio'r ffaith ei fod wedi cael ei ganfod yn 'euog' ond ei fod yn credu bod y gosb a roddwyd iddo yn rhy llym.

I wneud apêl, mae angen i ddiffynnydd fod â 'seiliau' dros apelio. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddo gael rheswm cyfreithiol pam ei fod yn meddwl bod y rheithfarn yn anghywir. Er enghraifft, os yw'n dweud nad oedd y barnwr wedi cynnal y treial mewn ffordd deg neu wedi gwneud camgymeriadau cyfreithiol.  Os yw diffynnydd am apelio, mae angen i farnwr o'r Llys Apêl gytuno bod ganddo 'seiliau' i apelio.

Os caniateir i ddiffynnydd apelio, anfonir ei achos i'r Llys Apêl, a fydd yn gallu cadarnhau'r euogfarn, gwrthdroi'r euogfarn fel y ceir y diffynnydd yn ddieuog neu wrthdroi'r euogfarn a gorchymyn bod treial newydd yn cael ei gynnal.

### Apelio yn erbyn dedfryd sy'n rhy fyr (dedfrydau rhy drugarog)

Mewn rhai mathau o achosion, gan gynnwys trais rhywiol ac ymosodiad rhywiol difrifol, mae gan unrhyw un hawl i ofyn am adolygu dedfryd diffynnydd os ydynt yn meddwl ei bod yn rhy drugarog (afresymol o isel). Os byddwn yn credu bod dedfryd yn rhy drugarog, byddwn yn argymell y dylid ei hadolygu.

Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol, sy'n un o adrannau'r llywodraeth, sy'n gyfrifol am adolygu'r achosion hyn. Mae angen i'r sawl sydd am apelio yn erbyn y ddedfryd gysylltu â Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol cyn gynted ag y bo modd (cyn 5pm 28 diwrnod calendr ar ôl dedfrydu fan bellaf).

Os bydd Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol yn cytuno bod y ddedfryd yn rhy fyr (rhy drugarog) byddant yn anfon yr achos i'r Llys Apêl. Yna bydd y Llys Apêl yn penderfynu a ddylid clywed yr achos ai peidio. Os byddant yn clywed yr achos, byddant yn penderfynu a ydynt am gadw'r ddedfryd yr un fath neu ei chynyddu.

Gallwch ddarllen mwy am apelio yn erbyn dedfrydau afresymol o isel yn **gov.uk/ask-crown-court-sentence-review**.